

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mehefin 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.00 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:30–10:00)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
10:00
- 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r
Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

2.1 SL(5)555 – Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

(Tudalennau 1 – 132)

CLA(5)–18–20 – Papur 1 – Adroddiad

CLA(5)–18–20 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–18–20 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol



3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r UE

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.1 SL(5)553 – Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

(Tudalennau 133 – 143)

CLA(5)–18–20 – Papur 4 – Adroddiad

CLA(5)–18–20 – Papur 5 – Rheoliadau

CLA(5)–18–20 – Papur 6 – Memorandwm Esboniadol

4 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 144 – 163)

CLA(5)–18–20 – Papur 7 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–18–20 – Papur 8 – Adroddiad

5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

5.1 WS–30C(5)161 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2020

(Tudalennau 164 – 169)

CLA(5)–18–20 – Papur 9 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–18–20 – Papur 10 – Sylwebaeth

6 Papur(au) i'w nodi

6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru

(Tudalennau 170 – 173)

CLA(5)–18–20 – Papur 11 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 4 Mehefin 2020

CLA(5)–18–20 – Papur 12 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 11 Mehefin 2020

6.2 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Busnes: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

(Tudalennau 174 – 177)

CLA(5)–18–20 – Papur 13 – Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes, 4 Mehefin 2020

6.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Gohebiaeth at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn

(Tudalennau 178 – 182)

CLA(5)–18–20 – Papur 14 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 9 Mehefin 2020

6.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheoliadau Offeryn Statudol Ledled y DU – Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygiad) 2020

(Tudalennau 183 – 184)

CLA(5)–18–20 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 9 Mehefin 2020

6.5 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Offeryn Statudol Led-led y DU – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol (Terfynnau Uchaf) 2020

(Tudalennau 185 – 186)

CLA(5)–18–20 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 10 Mehefin 2020

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 8, 9 ac 10:

10:30

8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid – trafod yr adroddiad drafft

(Tudalennau 187 – 190)

CLA(5)–18–20 – Papur 17 – Adroddiad drafft

- 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) – trafod yr adroddiad drafft**
(Tudalennau 191 – 193)

CLA(5)-18-20 – Papur 18 – Adroddiad drafft

- 10 Biliau'r DU sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd – briffio**
(Tudalennau 194 – 202)

CLA(5)-18-20 – Papur 19 – Papur Briffio gan Ymchwil y Senedd

Egwyl

(10:45–11:00)

- 11 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6**
11:00 (Tudalennau 203 – 239)

Jeremy Miles MS, Counsel General

Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Chris Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru

CLA(5)-18-20 – Papur briffio

CLA(5)-18-20 – Papur 20 – Datganiad gan Llywodraeth Cymru, 25 Chwefror 2020

CLA(5)-18-20 – Papur 21 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 11 Mehefin 2020

- 12 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

- 13 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru – trafod y dystiolaeth**

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 22 Mehefin 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y trefniadau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal cyfrifiad 2021 ("y Cyfrifiad") ac maent yn rhagnodi'r holiaduron a gaiff eu defnyddio. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys enghreifftiau o'r holiaduron papur a disgrifiadau o'r cwestiynau a'r opsiynau ymateb ar gyfer yr holiaduron ar-lein.

Arolwg a gynhelir bob 10 mlynedd o'r holl bobl ac aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yw'r Cyfrifiad. Mae'n darparu gwybodaeth hanfodol o lefel genedlaethol i lefel y gymdogaeth ar gyfer y llywodraeth, busnesau a'r gymuned.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 ("Deddf 1920") ac maent yn galluogi dwyn Gorchymyn Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 i rym. Ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ynghylch fersiwn ddrafft o Orchymyn drafft Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 drwy lythyr a anfonwyd at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Cymeradwywyd Gorchymyn Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 ("Gorchymyn y Cyfrifiad") gan Senedd y DU ar 14 Mai 2020 ac fe'i gwnaed gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 20 Mai 2020.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

Rheol Sefydlog 21.2(viii) – defnyddio iaith ryw-benodol.

1. Enwau rhyw-benodol

Mae'r holiaduron yn defnyddio enwau rhyw-benodol (er enghraifft, 'son or daughter' a 'mother or father' yn y fersiwn Saesneg, neu 'mab neu ferch' neu 'mam neu dad' yn y fersiwn Gymraeg) fel atebion posibl wrth geisio manylion am berthynas pobl mewn aelwyd â'i gilydd. Mae'r rhain yn ymddangos yn Rhan 1 (tudalennau 26 a 27 yn y fersiwn Saesneg a 29 a 30 yn y fersiwn Gymraeg), Rhan 4 (cwestiwn H6 ar dudalennau 43 a 44 yn y fersiwn Saesneg a 46 a 47 yn y fersiwn Gymraeg) a Rhan 5 (cwestiwn C1 ar dudalennau 75 a 76 yn y fersiwn Saesneg a 78 a 79 yn y fersiwn Gymraeg) o Atodlen 2. Mae'r un cwestiynau hefyd yn cynnwys atebion posibl nad ydynt yn enwau rhyw-benodol yn y fersiwn Saesneg (er enghraifft, 'grandchild or grandparent; nodir 'wyr neu wyres' neu 'taid/tad-cu neu nain/mam-gu' yn y fersiwn Gymraeg). Mae'r Canllawiau Drafftio Deddfwriaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi "Yn gyffredinol, dim ond i gyfeirio at bersonau o'r naill ryw neu'r llall y dylai iaith ryw-benodol gael ei defnyddio".

Nid yw'n glir pam na ddewiswyd enwau nad ydynt yn rhyw-benodol ar gyfer yr holl atebion posibl yn y fersiwn Saesneg. Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth.



Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

1. Hawliau dynol

Drwy ei gwneud yn orfodol i bobl ddarparu gwybodaeth bersonol wrth ymateb i'r Cyfrifiad, mae'r Rheoliadau'n cyffwrdd â'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawl os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, i atal anhrefn neu droseddu, er mwyn amddiffyn iechyd neu foesau, neu er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae'r broses o gynnal cyfrifiad wedi'i hen sefydlu yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n arfer cyffredin mewn llawer o wledydd. Mae cynnal cyfrifiad yn cael ei gyfiawnhau'n aml fel rhywbeth sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd ac fel ffynhonnell wybodaeth sy'n caniatáu i lywodraethau ddeall anghenion cymdeithasol.

Cydnabyddir bod mesurau diogelwch ar waith sy'n rhoi rhywfaint o ddiogelwch i breifatrwydd unigolyn, gan gynnwys cyfeiriadau at sut y caiff gwybodaeth ei diogelu'n unol â'r gyfraith, y troseddau o ran datgelu gwybodaeth y cyfrifiad a chaniatáu i unigolion mewn aelwyd lenwi holiadur unigol. Nodir hefyd fod Deddf 1920 yn gwneud cwestiynau ynglŷn â chrefydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn wirfoddol i bob pwrpas drwy ddileu'r gosb pe na bai person rhagnodedig yn ymateb i'r cwestiynau hynny yn y cyfrifiad. Yn olaf, bydd Deddf Diogelu Data 2018 yn gymwys i'r gwaith o brosesu data personol a nodir ar ffurflenni'r cyfrifiad ac felly'n darparu mesurau diogelwch pellach.

Er bod y gofyniad i ymateb i'r Cyfrifiad yn ymyrraeth gyfiawn â'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cyfiawnhad dros yr ymyrraeth.

2. Y termau Cymraeg a ddefnyddir ar gyfer 'household'

Mae rheoliad 3(3) yn darparu mai'r term "aelwyd" a ddefnyddir yn Gymraeg, yng nghorff y Rheoliadau, i gyfateb i "household" yn Saesneg. Fodd bynnag, mae rheoliad 3(4) yn darparu mai'r term "cartref" a ddefnyddir yn yr holiaduron i gyfateb i "household". Defnyddir "aelwyd" yn fwy cyffredinol i gyfateb i "hearth", tra bod "cartref" yn cael ei ddefnyddio i gyfateb i "home".

Nid oes rheswm clir am wahaniaethu ac nid yw'n glir pham na ellid defnyddio un term yng nghorff y Rheoliadau a'r holiaduron. Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r termau a ddefnyddir.

3. Gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Mae'r testun enghreifftiol Saesneg a roddir yng nghwestiwn 28 i unigolion (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 49, 54, 59, 64 a 69, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 80, 85, 90, 95 a 100 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 110), yn nodi, 'Record any qualifications you have ever achieved in Wales, England or worldwide...' tra bod y testun Cymraeg yn nodi, '...Cymru neu o unrhyw le arall yn y byd...', heb gynnwys Lloegr. Er y byddai'r cwestiwn yn cael ei ateb yn yr un modd ni waeth a ddefnyddiwyd y fersiwn Gymraeg



neu'r fersiwn Saesneg o'r holiaduron, nid oes rheswm clir am wahaniaethu, ac nid yw'n glir a oes arwyddocâd i'r gwahaniaeth.

Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r rheswm am y gwahaniaeth.

4. Personau rhagnodedig a'r fersiwn o'r holiaduron

Er ei bod yn bosibl canfod pa bersonau rhagnodedig y gofynnir iddynt lenwi pa holiaduron drwy ddarllen y Rheoliadau, mae cynllun a fformat y tabl sydd wedi'i gynnwys yn y fersiwn a gyhoeddwyd o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn creu amwysedd.

Gellid dod i'r casgliad fod y bylchau rhwng yr holiaduron a restrir yng ngholofnau (2) a (3) yn fwrriadol ac mai'r bwriad yw nodi beth sy'n berthnasol i'r personau rhagnodedig yng ngholofn (1). Er enghraifft, un dehongliad yw mai dim ond pan fo erthygl 5(11) o Orchymyn y Cyfrifiad yn gymwys y bydd Holiadur (papur) y Cartref (Parhad) yn berthnasol ac mai dim ond i bob person a bennir yng ngholofn (2) o Grŵp G yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad y mae'r Holiadur (papur) i Unigolion yn berthnasol.

O'r herwydd, byddai'n fanteisiol trefnu neu fformadu'r fersiwn gyhoeddedig o'r Rheoliadau yn gliriach rhwng pob un o'r tri grŵp o holiaduron y mae angen eu llenwi, efallai drwy gynnwys rhifau neu linellau rhwng y rhesi.

Gofynnir am ymateb gan y Llywodraeth.

Rheol Sefydlog 21.3(v) - nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith

5. Gwahaniaethau rhwng yr holiadur ar-lein a'r holiadur papur

Mae rhai gwahaniaethau rhwng y cwestiynau a ofynnir, a'r atebion a gynnigir, yn yr holiadur ar-lein o'i gymharu â'r holiadur papur. Dyma'r gwahaniaethau:

(a) Mae'r holiadur ar-lein yn nodi Bagloriaeth Cymru Uwch, Bagloriaeth Cymru Canolradd a Bagloriaeth Cymru Sylfaen fel opsiynau ar wahân wrth geisio gwybodaeth am gymwysterau ond yn grwpio'r opsiynau hyn gyda "2 neu fwy o gymwysterau Lefel A (Safon Uwch) (gan gynnwys 4 Lefel AS (Safon UG) neu fwy)" a "5 neu fwy o gymwysterau TGAU A* i C neu 9 i 4 (gan gynnwys 5 neu fwy Lefel O (marc llwyddo) neu TAUau graddau 1)" ac "Unrhyw gymwysterau TGAU eraill (gan gynnwys unrhyw Lefel O neu TAU arall ar unrhyw radd)" yn y drefn honno. Mae'r gwahaniaethau i'w gweld yn Rhan 1 o Atodlen 2 (ar dudalen 36 a 37) ar gyfer yr holiadur ar-lein a chwestiwn 31 i unigolion (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 52, 57, 62, 67 a 72, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 83, 88, 93, 98 a 103 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 113) ar gyfer yr holiaduron papur.

(b) Os nad yw person wedi cyflawni'r cymwysterau a nodir neu gymwysterau cyfatebol, gofynnir iddynt "Oes gennych chi unrhyw gymwysterau eraill?" yn yr holiadur ar-lein (Rhan 2 o Atodlen 2 ar dudalen 37). Mae'r tri ateb posibl ar gyfer y cwestiwn hwnnw yn caniatáu i berson nodi bod ganddo (i) gymwysterau eraill yng Nghymru neu Lloegr, (ii) cymwysterau eraill o'r tu allan i Gymru a Lloegr neu (iii) dim cymwysterau. Ni ofynnir i berson sy'n llenwi holiadur papur wahaniaethu rhwng cymwysterau a gyflawnir yng Nghymru a Lloegr a'r rhai a gyflawnir y tu allan i Gymru a Lloegr.

(c) Mae'r cyfarwyddyd cyfeirio yn yr holiadur ar-lein (Rhan 2 o Atodlen 2 ar dudalen 38) yn nodi mai dim ond yn dilyn ymatebion penodol y gofynnir rhai cwestiynau. Gofynnir y cwestiynau cyfatebol (cwestiynau 36 a 37 i unigolion) yn yr holiaduron papur ni waeth beth yw'r ymateb a roddwyd i gwestiwn 35 (Rhan 4 o



Atodlen 2 ar dudalennau 52, 57, 62, 67 a 72, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 83, 88, 93, 98 a 103 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 113).

(d) Mae'r holiadur ar-lein yn cynnwys cwestiwn "Ble ydych chi'n gweithio'n bennaf?" gydag opsiynau gan gynnwys "Mewn gweithle" ac "Adrodd i depo". Mae'r cwestiwn dilynol "Ydych chi'n gweithio yn y Deyrnas Unedig yn bennaf?" yn cynnwys ymatebion sy'n gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau yn y DU, lle gofynnir i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi'r cyfeiriad, a rhai'r tu allan i'r DU, lle gofynnir i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi'r wlad yn unig. Mae'r holiaduron papur yn cyfuno'r opsiynau ar gyfer gweithle a depo yng nghwestiwn 49 (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 53, 58, 63, 68 a 73, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 84, 89, 94, 99 a 104 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 114). Nid yw'r holiaduron papur yn gwahaniaethu ychwaith rhwng gweithleoedd yn y DU a rhai'r tu allan i'r DU, gan ofyn i'r sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi cyfeiriad llawn waeth beth yw lleoliad y gweithle ar gyfer cwestiwn 50 (Rhan 4 o Atodlen 2 ar dudalennau 53, 58, 63, 68 a 73, Rhan 5 o Atodlen 2 ar dudalennau 84, 89, 94, 99 a 104 a Rhan 6 o Atodlen 2 ar dudalen 114).

Nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau hyn yn fwriadol, ac os felly pam mae'r gwahaniaethau hynny'n angenrheidiol. Os bydd yr atebion a gesglir ar gyfer yr holiaduron ar-lein a'r holiaduron papur fel rhan o'r Cyfrifiad yn wahanol, gallai hynny effeithio ar ansawdd y data a gesglir a'r ystadegau y gellir eu canfod gan ddefnyddio'r data hynny. Mae'r gwahaniaethau hynny'n effeithio ar yr amcan polisi o gynnal ymarfer casglu data sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan.

Gofynnir am esboniad gan y Llywodraeth i egluro'r rheswm am y gwahaniaethau.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt technegol ac i'r ail, y trydydd, y pedwerydd a'r pumed pwynt o ran rhinweddau.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Mehefin 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 4

Legislation, Justice and Constitution Committee

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 555 (Cy. 128)

Y CYFRIFIAD, CYMRU

**Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru)
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau manwl sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru y cyfarwyddwyd ei gynnal ar 21 Mawrth 2021 gan Orchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 (O.S. 2020/532) ("Gorchymyn y Cyfrifiad"). Maent hefyd yn dirymu Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1361 (Cy. 116)).

Mae rheoliad 3 yn darparu diffiniadau ar gyfer dehongli'r Rheoliadau hyn ynghyd â byrfodau i ddehongli'r holiaduron a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Mae rheoliad 3 hefyd yn darparu nad yw person rhagnodedig yn torri'r Rheoliadau hyn drwy ddychwelyd fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o holiadur gyda'r ddwy fersiwn wedi eu llenwi'n rhannol, ar yr amod bod yr wybodaeth a ddarperir yn yr holiaduron yn gyfystyr â ffurflen gyfan.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer rhannu Cymru yn ardaloedd cyfrifiad, ardaloedd cydgysylltu cyfrifiad, ardaloedd cydgysylltu sefydliadau cymunedol a dosbarthau cyfrifo. Mae hefyd yn darparu ar gyfer penodi personau i gyflawni'r dyletswyddau a neilltuir iddynt o dan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 5 yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer yr holiaduron i'w defnyddio yn ystod y cyfrifiad. Rhaid bod gan yr holiaduron ar-lein y cwestiynau a'r opsiynau ymateb a'r swyddogaethau a'r nodweddion a nodir yn Rhannau 1, 2, 3 ac 8 o Atodlen 2. Rhaid i'r holiaduron papur fod ar y ffurf a ddangosir yn Rhannau 4, 5, 6 a 7 o Atodlen 2.

Mae rheoliad 6 yn darparu y bydd person y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo lenwi ffurflen yn y cyfrifiad yn cyflawni ei gyfrifoldeb pan fydd yr holiadur papur neu'r holiadur ar-lein perthnasol a bennir yn Atodlen 1 wedi dod i law'r Bwrdd Ystadegau ("yr Awdurdod"). Mae rheoliad 6

hefyd yn darparu y caiff deiliad aelwyd neu gyd-ddeiliad aelwyd, neu berson a chanddo ofal am y tro dros sefydliad cymunedol, gyflwyno ffurflen bapur mewn perthynas â'r aelwyd neu'r sefydliad cymunedol a ffurflenni ar-lein mewn perthynas â phersonau unigol ar yr aelwyd honno neu yn y sefydliad cymunedol hwnnw, neu yn y drefn arall.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddarparu systemau electronig digonol (system olrhain holiaduron ac offeryn rheoli gwaith maes) a dyfeisiau electronig digonol (dyfeisiau electronig y cyfrifiad) i gefnogi cynnal y cyfrifiad.

Mae rheoliad 8 yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys y mathau gwahanol o becynnau cyfrifiad.

Mae rheoliadau 9 i 15 yn darparu trefniadau manwl ar gyfer darparu'r holiaduron dwyieithog, eu danfon, eu llenwi a'u dychwelyd. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael o bob holiadur. Bydd mynediad i bob categori o holiadur ar-lein drwy ddefnyddio cod mynediad unigryw, er enghraifft, bydd un cod mynediad unigryw yn rhoi mynediad i fersiynau Cymraeg a Saesneg Holiaduron y Cartref.

Mae rheoliad 16 yn darparu i gamau gweithredu dilynol gael eu cymryd os na fydd holiadur a anfonwyd neu a ddanfonwyd yn unol â'r Rheoliadau hyn yn cael ei ddychwelyd, neu os bydd yn cael ei ddychwelyd yn anghyflawn.

Mae rheoliad 17 yn gwneud darpariaeth i wybodaeth gael ei rhoi gan berson rhagnodedig i berson sy'n llenwi ffurflen ar ei ran, neu i berson sydd wedi ei benodi i gyflawni dyletswyddau o dan y Rheoliadau hyn. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i atal gwybodaeth a geir at ddiben y cyfrifiad rhag cael ei defnyddio, ei chyhoeddi a'i chyfathrebu heb awdurdod.

Mae rheoliadau 18 a 19 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chadw holiaduron a dyfeisiau electronig y cyfrifiad yn ddiogel yn ogystal â storio a diogelu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r cyfrifiad.

Mae rheoliad 20 yn darparu ar gyfer rhoi naill ai datganiad statudol neu ymgymeriad ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth a geir o ganlyniad i'r cyfrifiad gan bersonau a fydd yn cael mynediad at yr wybodaeth honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Cyllid

Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 555 (Cy. 128)

Y CYFRIFIAD, CYMRU

**Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru)
2020**

<i>Gwnaed</i>		<i>28 Mai 2020</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 1 Mehefin 2020</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>26 Mehefin 2020</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 3(1) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920(1), ac ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau yn unol ag adran 3(1A)(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Mehefin 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010(3) wedi eu dirymu.

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "aelwyd" yr ystyr a roddir i "household" gan erthygl 2(1) o Orchymyn y Cyfrifiad;

-
- (1) 1920 p. 41. Diwygiwyd adran 3(1) gan Ran 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50), a chan adran 25 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 (p. 18) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Mewnosodwyd adran 3(1A) gan adran 25 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac Atodlen 1 iddi.
- (3) O.S. 2010/1361 (Cy. 116).

mae i “amlen radbost” (“*prepaid envelope*”) fel y mae’n ymddangos yn holiadur I2(paper) ac I2W(papur) yr un ystyr ag “amlen wedi ei thalu ymlaen llaw”;

ystyr “amlen wedi ei thalu ymlaen llaw” (“*reply-paid envelope*”) yw amlen sydd wedi ei chyfeirio ymlaen llaw ac nad oes angen i’r anfonwr dalu i’w hanfon;

mae i “annedd” yr ystyr a roddir i “dwelling” gan erthygl 2(1) o Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr “ardal cydgysylltydd cyfrifiad” (“*census co-ordinator area*”) yw ardal a grëir o dan reoliad 4(1)(b)(i);

ystyr “ardal cydgysylltydd sefydliadau cymunedol” (“*communal establishment co-ordinator area*”) yw ardal a grëir o dan reoliad 4(1)(b)(ii);

ystyr “yr Awdurdod” (“*the Authority*”) yw’r Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf 2007;

ystyr “cod mynediad unigryw” (“*unique access code*”) yw cod sy’n rhoi mynediad unigryw drwy’r rhyngwyd i holiadur H2(online) ac H2W(ar-lein), holiadur I2(online) ac I2W(ar-lein), a holiadur CE2(online) ac CE2W(ar-lein). Mae’r cod mynediad unigryw yn rhoi mynediad i’r fersiwn Gymraeg a’r fersiwn Saesneg o’r holiadur y mae’r person rhagnodedig yn ei lenwi;

ystyr “cod mynediad unigryw newydd” (“*replacement unique access code*”) yw cod mynediad unigryw sy’n wahanol i god mynediad unigryw a ddarparwyd eisoes ac sy’n disodli’r cod hwnnw;

ystyr “cydgysylltydd cyfrifiad” (“*census co-ordinator*”) yw person a benodir o dan reoliad 4(1)(b)(i);

ystyr “cydgysylltydd sefydliadau cymunedol” (“*communal establishment co-ordinator*”) yw person a benodir o dan reoliad 4(1)(b)(ii);

ystyr “cyfrifiad” (“*census*”) yw’r cyfrifiad y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn cyfarwyddo ei gynnal;

ystyr “Deddf 1920” (“*the 1920 Act*”) yw Deddf y Cyfrifiad 1920;

ystyr “Deddf 2007” (“*the 2007 Act*”) yw Deddf Ystadegau a’r Gwasanaeth Cofrestru 2007(1);

mae i “deiliad aelwyd” yr ystyr a roddir i “householder” gan erthygl 2(1) o Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr “diwrnod y cyfrifiad” (“*census day*”) yw 21 Mawrth 2021;

(1) 2007 p. 18.

ystyr “dosbarth cyfrifo” (“*enumeration district*”) yw dosbarth a grëir o dan reoliad 4(1)(c);

ystyr “dyfais gyfrifiad electronig” (“*census electronic device*”) yw unrhyw ddyfais electronig y mae rhaid i'r Awdurdod ei darparu o dan reoliad 7(3);

ystyr “etholwr” (“*elector*”) yw person rhagnodedig sy'n ethol llenwi ffurflen unigolyn o dan erthygl 5(5) o Orchymyn y Cyfrifiad;

mae i “ffurflen unigolyn” yr ystyr a roddir i “individual return” gan erthygl 2(1) o Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr “y gofrestr cyfeiriadau” (“*the address register*”) yw'r gofrestr ac unrhyw is-set o'r gofrestr a ddefnyddir gan yr Awdurdod, sy'n cynnwys cyfeiriad pob aelwyd a phob sefydliad cymunedol yng Nghymru y mae'r Awdurdod yn ymwybodol ohonynt;

ystyr “Gorchymyn y Cyfrifiad” (“*the Census Order*”) yw Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020(1);

mae i “gwybodaeth bersonol” yr ystyr a roddir i “personal information” gan adran 39(2) o Ddeddf 2007;

ystyr “holiadur” (“*questionnaire*”) yw unrhyw holiadur ar-lein neu holiadur papur;

ystyr “holiadur ar-lein” (“*online questionnaire*”) yw unrhyw un neu ragor o'r holiaduron a ganlyn: H2(online), H2W(ar-lein), I2(online), I2W(ar-lein), CE2(online) neu CE2W(ar-lein);

ystyr “holiadur papur” (“*paper questionnaire*”) yw unrhyw un neu ragor o'r holiaduron a ganlyn: H2(papur), H2W(papur), HC2(papur), HC2W(papur), I2(papur), I2W(papur), CE2(papur) neu CE2W(papur);

ystyr “holiadur wedi ei lenwi” (“*completed questionnaire*”) yw holiadur sydd wedi ei lenwi gyda'r manylion y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i berson rhagnodedig eu darparu ac a oedd yn gywir am hanner nos ar ddiwrnod y cyfrifiad;

ystyr “offeryn rheoli gwaith maes” (“*fieldwork management tool*”) yw'r system electronig honno y mae rhaid i'r Awdurdod ei darparu o dan reoliad 7(2);

ystyr “pecyn aelwyd” (“*household pack*”) yw pecyn ar-lein i aelwydydd neu becyn papur i aelwydydd;

(1) O.S. 2020/532.

ystyr “pecyn aelwyd (parhad)” (*“household continuation pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(5);

ystyr “pecyn ar-lein i aelwydydd” (*“online household pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(3);

ystyr “pecyn ar-lein i sefydliadau cymunedol” (*“online communal establishment pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(3);

ystyr “pecyn ar-lein i unigolion” (*“online individual pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(3);

ystyr “pecyn i sefydliadau cymunedol” (*“communal establishment pack”*) yw pecyn ar-lein i sefydliadau cymunedol neu becyn papur i sefydliadau cymunedol;

ystyr “pecyn papur i aelwydydd” (*“paper household pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(4);

ystyr “pecyn papur i sefydliadau cymunedol” (*“paper communal establishment pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(4);

ystyr “pecyn papur i unigolion” (*“paper individual pack”*) yw pecyn fel y’i disgrifir yn rheoliad 8(4);

ystyr “pecyn unigolyn” (*“individual pack”*) yw pecyn ar-lein i unigolion neu becyn papur i unigolion;

ystyr “pecynnau cyfrifiad” (*“census packs”*) yw unrhyw un neu ragor o’r pecynnau a ddisgrifir yn rheoliad 8(3) i (5);

ystyr “penodai” (*“appointee”*) yw unrhyw berson a benodir o dan reoliad 4 neu a benodir gan yr Awdurdod cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym at ddibenion cynnal y cyfrifiad;

ystyr “person rhagnodedig” (*“prescribed person”*) yw person y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo lenwi ffurflen, neu unrhyw berson sy’n llenwi ffurflen ar ran person o’r fath yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad;

mae i “preswylydd arferol” yr ystyr a roddir i “usual resident” gan erthygl 2(3)(a) o Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr “rheolwr gweithrediadau ardal” (*“area operations manager”*) yw person a benodir o dan reoliad 4(1)(a);

ystyr “rhif adnabod holiadur” (*“questionnaire identification number”*) yw marc adnabod rhifol y gall peiriant ei ddarllen sy’n unigryw i bob holiadur;

ystyr “sefydliad cymunedol” (*“communal establishment”*) yw unrhyw sefydliad a bennir yng

Ngrwpiau B i F o golofn 1 o Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad;

ystyr “swyddog cyfrifiad” (“*census officer*”) yw swyddog a benodir o dan reoliad 4(1)(c);

ystyr “swyddog sefydliadau cymunedol” (“*communal establishment officer*”) yw swyddog a benodir o dan reoliad 4(1)(c);

ystyr “system olrhain holiaduron” (“*questionnaire tracking system*”) yw unrhyw system neu systemau electronig a ddarperir gan yr Awdurdod o dan reoliad 7(1);

ystyr “yn electronig” (“*electronically*”) yw drwy ddefnyddio’r rhyngwyd.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae’r byrfoddau a ganlyn yn gymwys—

<i>Byrfodd defnyddir “holiadur”</i>	<i>(pan y'i gyda'r term Ystyr</i>
H2(online)	“Household Questionnaire (online)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
H2W(ar-lein)	“Holiadur (ar-lein) y Cartref” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1
I2(online)	“Individual Questionnaire (online)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
I2W(ar-lein)	“Holiadur (ar-lein) i Unigolion” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1
CE2(online)	“Communal Establishment Questionnaire (online)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
CE2W(ar-lein)	“Holiadur (ar-lein) i Sefydliadau Cymunedol” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1
H2(paper)	“Household Questionnaire (paper)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
H2W(papur)	“Holiadur (papur) y Cartref” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl

HC2(paper)	yn Atodlen 1 “Household Continuation Questionnaire (paper)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
HC2W(papur)	“Holiadur (papur) y Cartref (Parhad)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1
I2(paper)	“Individual Questionnaire (paper)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
I2W(papur)	“Holiadur (papur) i Unigolion” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1
CE2(paper)	“Communal Establishment Questionnaire (paper)” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (2) o’r tabl yn Atodlen 1
CE2W(papur)	“Holiadur (papur) i Sefydliadau Cymunedol” fel y cyfeirir ato yng ngholofn (3) o’r tabl yn Atodlen 1

(3) Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn—

- (a) y gair Cymraeg sy’n cyfateb i “household” yw “aelwyd”, a
- (b) y geiriau Cymraeg sy’n cyfateb i “householder” yw “deiliad aelwyd”.

(4) Yn fersiynau Cymraeg yr holiaduron—

- (a) y geiriau Cymraeg sy’n cyfateb i “household” yw “cartref” ac “aelodau o’r cartref” (yn ôl y digwydd), a
- (b) y gair Cymraeg sy’n cyfateb i “householder” yw “deiliad y cartref”.

(5) Nid yw person rhagnodedig yn torri’r Rheoliadau hyn drwy ddychwelyd fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o holiadur gyda’r ddwy fersiwn wedi eu llenwi’n rhannol, ar yr amod bod yr wybodaeth a ddarperir yn yr holiaduron yn gyfystyr â ffurflen gyfan.

Rhaniadau gweinyddol a phenodiadau

4.—(1) At ddibenion y cyfrifiad, rhaid i’r Awdurdod—

- (a) rhannu Cymru yn ardaloedd cyfrifiad a phenodi rheolwr gweithrediadau ardal i bob ardal gyfrifiad;

- (b) rhannu pob ardal gyfrifiad yn—
 - (i) ardaloedd cydgysylltwyr cyfrifiad a phenodi cydgysylltydd cyfrifiad i bob ardal cydgysylltydd cyfrifiad;
 - (ii) ardaloedd cydgysylltwyr sefydliadau cymunedol a phenodi cydgysylltydd sefydliadau cymunedol i bob ardal cydgysylltydd sefydliadau cymunedol;
- (c) rhannu pob ardal cydgysylltydd cyfrifiad a phob ardal cydgysylltydd sefydliadau cymunedol yn ddsbarthau cyfrifo a phenodi cynifer o swyddogion cyfrifiad a swyddogion sefydliadau cymunedol y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben cynnal y cyfrifiad yn y dosbarthau hynny, yn unol â Deddf 1920 a'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff yr Awdurdod hefyd benodi cynifer o bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn cynnal y cyfrifiad.

(3) Rhaid i'r personau a benodir o dan baragraffau (1) a (2) gyflawni'r dyletswyddau a neilltuir iddynt o dan Ddeddf 1920 a'r Rheoliadau hyn.

Holiaduron i'w defnyddio wrth gynnal y cyfrifiad

5.—(1) At ddibenion y cyfrifiad rhaid i'r Awdurdod sicrhau—

- (a) bod holiaduron ar-lein ar gael yn electronig ac yn ddwyieithog drwy godau mynediad unigryw ac yn cynnwys y cwestiynau a'r opsiynau ymateb a nodir (fel y bo'n briodol) yn Rhannau 1, 2 a 3 o Atodlen 2 a'r swyddogaethau a'r nodweddion a ddisgrifir yn Rhan 8 o Atodlen 2;
- (b) bod holiaduron papur dwyieithog yn cael eu llunio ar y ffurf a nodir (fel y bo'n briodol) yn Rhannau 4, 5, 6 a 7 o Atodlen 2.

(2) Rhaid i bob holiadur i'w ddefnyddio yn y cyfrifiad gynnwys rhif adnabod holiadur.

Dyletswyddau mewn perthynas â llenwi ffurflenni

6.—(1) Rhaid i berson rhagnodedig, wrth lenwi ffurflen fel sy'n ofynnol gan Orchymyn y Cyfrifiad—

- (a) llenwi'r holiadur perthnasol a nodir ym mharagraff (3), yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar gyfer yr holiadur hwnnw;
- (b) cyflwyno'r holiadur sydd wedi ei lenwi i'r Awdurdod yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae holiadur wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod yn unol â'r Rheoliadau hyn—

- (a) mewn cysylltiad â holiadur ar-lein, pan yw'r Awdurdod wedi ei gael yn electronig, neu

- (b) mewn cysylltiad â holiadur papur, pan yw wedi dod i law penodai yn bersonol, neu pan yw wedi ei gael drwy'r post gan yr Awdurdod neu benodai.

(3) Yr holiadur i'w llenwi a'i gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau hyn gan berson rhagnodedig a grybwyllir yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 1 yw'r holiadur ar-lein neu'r holiadur papur y cyfeirir ato yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) neu (3).

(4) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn sy'n atal person rhagnodedig sy'n deiliad aelwyd, neu unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran y deiliad aelwyd hwnnw yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad, rhag llenwi ffurflen fel sy'n ofynnol gan Orchymyn y Cyfrifiad—

- (a) drwy lenwi a chyflwyno holiadur papur a hefyd, mewn cysylltiad ag aelodau ychwanegol o aelwyd y deiliad aelwyd hwnnw, drwy lenwi a chyflwyno holiadur ar-lein, neu
- (b) drwy lenwi a chyflwyno holiadur ar-lein a hefyd, mewn cysylltiad ag aelodau ychwanegol o aelwyd y deiliad aelwyd hwnnw, drwy lenwi a chyflwyno holiadur papur.

(5) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn sy'n atal person sy'n llenwi ffurflen o dan erthygl 5(9)(a)(i) neu (b) o Orchymyn y Cyfrifiad ar ran person arall rhag llenwi'r ffurflen honno—

- (a) drwy lenwi a chyflwyno holiadur papur a hefyd, mewn cysylltiad â'r person arall hwnnw, drwy lenwi a chyflwyno holiadur ar-lein, neu
- (b) drwy lenwi a chyflwyno holiadur ar-lein a hefyd, mewn cysylltiad â'r person arall hwnnw, drwy lenwi a chyflwyno holiadur papur.

Y system olrhain holiaduron, yr offeryn rheoli gwaith maes a dyfeisiau electronig y cyfrifiad

7.—(1) Rhaid i'r Awdurdod ddarparu system olrhain holiaduron ar gyfer rheoli'r cyfrifiad ac ar gyfer cadw cofnodion ynghylch—

- (a) rhifau adnabod holiaduron,
- (b) codau mynediad unigryw sy'n rhoi mynediad i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur fel a ddewisir gan y person rhagnodedig,
- (c) codau mynediad unigryw newydd,
- (d) cyfeiriadau aelwydydd a sefydliadau cymunedol,
- (e) yr aelwydydd neu'r sefydliadau cymunedol y mae pecynnau cyfrifiad wedi eu hanfon

iddynt drwy'r post neu wedi eu danfon iddynt yn unol â'r Rheoliadau hyn, neu'r aelwydydd neu'r sefydliadau cymunedol y mae ymweliadau i'w cynnal â hwy,

- (f) amgylchiadau'r danfoniad ar gyfer pob pecyn cyfrifiad a ddanfonwyd gan swyddog cyfrifiad neu swyddog sefydliadau cymunedol,
- (g) y dyddiad pan ddaeth pob holiadur wedi ei lenwi a gafwyd gan yr Awdurdod i law, a'r modd y'i cafwyd,
- (h) amlgeisiadau am becynnau cyfrifiad neu godau mynediad unigryw newydd gan yr un person rhagnodedig,
- (i) dychwelyd mwy nag un holiadur wedi ei lenwi mewn perthynas â'r un person rhagnodedig,
- (j) y dyddiad pan wneir unrhyw gofnod yn unol â rheoliad 11(8)(a), 13(11)(b) neu 16(5)(b) a'r person rhagnodedig y'i gwnaed mewn cysylltiad ag ef, a
- (k) unrhyw wybodaeth arall y mae'r Awdurdod yn ystyried y gall gynorthwyo o ran cynnal y cyfrifiad.

(2) Rhaid i'r Awdurdod ddarparu offeryn rheoli gwaith maes i'w ddefnyddio wrth gynnal y cyfrifiad, gan gynnwys er mwyn—

- (a) creu camau gweithredu y mae'n ofynnol i benodeion eu cymryd;
- (b) nodi cyfeiriadau eiddo i benodeion ymweld â hwy;
- (c) galluogi cofnodi gwybodaeth ar gyfer y system olrhain holiaduron.

(3) Rhaid i'r Awdurdod ddarparu dyfeisiau electronig digonol (a elwir yn "dyfeisiau electronig y cyfrifiad" yn y Rheoliadau hyn) y gall pob penodai y mae angen iddo gael mynediad i'r offeryn rheoli gwaith maes eu defnyddio i wneud hynny a chael cyfarwyddiadau yn electronig.

Paratoi pecynnau cyfrifiad

8.—(1) Rhaid i'r Awdurdod baratoi cynifer o becynnau cyfrifiad y cyfeirir atynt ym mharagraffau (3) i (5) y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad.

(2) Rhaid i gynnwys pob pecyn cyfrifiad gael ei roi mewn amlen wedi ei selio y gall unrhyw gyfeiriad wedi ei argraffu gael ei weld drwyddi.

(3) Rhaid i bob un o'r pecynnau ar-lein i aelwydydd, y pecynnau ar-lein i unigolion a'r pecynnau ar-lein i sefydliadau cymunedol gynnwys—

- (a) yn eu trefn, cod mynediad unigryw ar gyfer holiadur H2(online) ac H2W(ar-lein), cod mynediad unigryw ar gyfer holiadur I2(online) ac I2W(ar-lein) a chod mynediad unigryw ar gyfer holiadur CE2(online) ac CE2W(ar-lein), a
- (b) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn ystyried y gall gynorthwyo o ran llenwi a chyflwyno'r holiadur y mae'r pecyn hwnnw yn ymwneud ag ef.

(4) Rhaid i bob un o'r pecynnau papur i aelwydydd, y pecynnau papur i unigolion a'r pecynnau papur i sefydliadau cymunedol gynnwys—

- (a) yn eu trefn, copi o holiadur H2(papur) ac H2W (papur), copi o holiadur I2(papur) ac I2W(papur) a chopi o holiadur CE2(papur) ac CE2W(papur),
- (b) yn eu trefn, cod mynediad unigryw ar gyfer holiadur H2(online) ac H2W(ar-lein), cod mynediad unigryw ar gyfer holiadur I2(online) ac I2W(ar-lein) a chod mynediad unigryw ar gyfer holiadur CE2(online) ac CE2W(ar-lein),
- (c) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn ystyried y gall gynorthwyo o ran llenwi a chyflwyno'r holiaduron y mae'r pecynnau hynny yn ymwneud â hwy, a
- (d) amlen wedi ei thalu ymlaen llaw.

(5) Rhaid i'r pecynnau aelwyd (parhad) gynnwys—

- (a) copi o holiadur HC2(papur) a chopi o holiadur HC2W(papur),
- (b) unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Awdurdod yn ystyried y gall gynorthwyo o ran llenwi a chyflwyno'r holiadur, ac
- (c) amlen wedi ei thalu ymlaen llaw.

Anfon pecynnau i aelwydydd ac at etholwyr drwy'r post

9.—(1) Caiff yr Awdurdod anfon pecyn aelwyd drwy'r post i'r aelwydydd hynny yn y gofrestr cyfeiriadau, a phecyn unigolyn at yr etholwyr hynny yn y gofrestr cyfeiriadau, y mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad cyn diwrnod y cyfrifiad.

(2) Os nad yw'r Awdurdod yn anfon pecyn aelwyd neu becyn unigolyn drwy'r post o dan baragraff (1) rhaid iddo, yn lle hynny, ei gwneud yn ofynnol i'r cydgysylltydd cyfrifiad perthnasol drefnu danfon pecyn aelwyd neu becyn unigolyn â llaw i'r aelwyd honno neu at yr etholwr hwnnw (yn ôl y digwydd) yn unol â rheoliad 10.

(3) Mewn cysylltiad â phob pecyn cyfrifiad a anfonir drwy'r post yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r Awdurdod sicrhau y gwneir cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos y cyfeiriad yr anfonwyd y pecyn cyfrifiad iddo.

Danfôn pecynnau i aelwydydd ac at etholwyr â llaw

10.—(1) Rhaid i'r Awdurdod ddyroddi i bob cydgysylltydd cyfrifiad—

- (a) dyfais gyfrifiad electronig i'w defnyddio ym mhob dosbarth cyfrifo o fewn ardal cydgysylltydd cyfrifiad y cydgysylltydd cyfrifiad hwnnw;
- (b) unrhyw becynnau aelwyd a phecynnau unigolyn y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad;
- (c) rhestr, sydd wedi ei chynnwys yn yr offeryn rheoli gwaith maes, o gyfeiriadau pob aelwyd a phob etholwr yn y gofrestr cyfeiriadau sydd yn ardal cydgysylltydd cyfrifiad y cydgysylltydd cyfrifiad hwnnw y mae pecynnau aelwyd a phecynnau unigolyn (fel y bo'n briodol) i'w danfon â llaw iddynt yn unol â rheoliad 9(2);
- (d) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall y mae'n ystyried eu bod neu ei bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad.

(2) Rhaid i bob cydgysylltydd cyfrifiad—

- (a) dynodi swyddog cyfrifiad i ddanfôn pecynnau aelwyd a phecynnau unigolyn i bob dosbarth cyfrifo;
- (b) rhoi i'r swyddog cyfrifiad hwnnw yr eitemau hynny ym mharagraff (1)(a) i (d), a niferoedd digonol ohonynt, y mae eu hangen ar y swyddog cyfrifiad er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swyddog cyfrifiad hwnnw o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i bob swyddog cyfrifiad a ddynodir o dan baragraff (2)(a) wedyn ddanfôn—

- (a) pecyn aelwyd neu becyn unigolyn i bob aelwyd neu etholwr (yn ôl y digwydd) y mae ei chyfeiriad neu ei gyfeiriad wedi ei gynnwys yn y rhestr o gyfeiriadau y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(c) ac sydd o fewn dosbarth cyfrifo'r swyddog cyfrifiad hwnnw;
- (b) pecynnau aelwyd a phecynnau unigolyn (fel y bo'n briodol) i unrhyw aelwydydd eraill neu at unrhyw etholwyr eraill sydd wedi eu nodi gan y swyddog cyfrifiad yn nosbarth cyfrifo'r swyddog cyfrifiad hwnnw.

(4) Mae dyletswydd swyddog cyfrifiad i ddanfôn pecyn cyfrifiad o dan baragraff (3) wedi ei bodloni mewn perthynas â phob aelwyd os yw'r swyddog

cyfrifiad yn traddodi pecyn aelwyd i'r deiliad aelwyd neu'r cyd-ddeiliad aelwyd, ac mewn perthynas â phob etholwr, os yw'r swyddog cyfrifiad yn traddodi pecyn unigolyn i'r etholwr neu, yn y naill achos neu'r llall, pan na fo person o'r fath ar gael, os yw'r swyddog cyfrifiad—

- (a) yn gadael y pecyn cyfrifiad gyda pherson cyfrifol sy'n honni ei fod yn gweithredu ar ran y deiliad aelwyd, y cyd-ddeiliad aelwyd neu'r etholwr (yn ôl y digwydd), neu
 - (b) pan na fo unigolyn cyfrifol o'r fath ar gael, yn gadael y pecyn cyfrifiad yn y cyfeiriad perthnasol sydd wedi ei gynnwys yn yr offeryn rheoli gwaith maes, neu'n ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw neu, os yw'n cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan y cydgysylltydd cyfrifiad, i gyfeiriad arall a ddarperir gan y cydgysylltydd cyfrifiad.
- (5) Rhaid i bob swyddog cyfrifiad—
- (a) gwneud cofnod yn y ddyfais gyfrifiad electronig o'r canlynol—
 - (i) pob pecyn aelwyd a phecyn unigolyn a ddanfonwyd yn unol â pharagraff (3)(a) neu (b), a
 - (ii) unrhyw aelwyd ychwanegol neu etholwr ychwanegol y mae'r swyddog cyfrifiad wedi danfon pecyn cyfrifiad iddi neu ato o dan baragraff (3)(b);
 - (b) galluogi'r cydgysylltydd cyfrifiad i gael mynediad i'r wybodaeth a gofnodir yn nyfais gyfrifiad electronig y swyddog cyfrifiad neu'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r ddyfais honno.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n atal swyddog cyfrifiad rhag cael ei ddynodi i ddanfon pecynnau i fwy nag un dosbarth cyfrifo.

Danfon pecynnau i sefydliadau cymunedol â llaw

11.—(1) Rhaid i'r Awdurdod ddyroddi'r canlynol i bob cydgysylltydd sefydliadau cymunedol—

- (a) dyfeisiau electronig digonol i'w defnyddio ym mhob dosbarth cyfrifo o fewn ardal cydgysylltydd sefydliadau cymunedol y cydgysylltydd sefydliadau cymunedol hwnnw;
- (b) unrhyw becynnau sefydliadau cymunedol a phecynnau unigolyn y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad;
- (c) rhestr, sydd wedi ei chynnwys yn yr offeryn rheoli gwaith maes, o gyfeiriadau pob sefydliad cymunedol yn y gofrestr cyfeiriadau sydd yn ardal cydgysylltydd sefydliadau

cymunedol y cydgysylltydd sefydliadau cymunedol hwnnw;

- (d) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall y mae'n ystyried eu bod neu ei bod yn angenrheidiol at ddiben y cyfrifiad.

(2) Rhaid i bob cydgysylltydd sefydliadau cymunedol—

- (a) dynodi swyddog sefydliadau cymunedol i ddanfôn pecynnau sefydliadau cymunedol a phecynnau unigolyn i bob dosbarth cyfrifo;
- (b) cyflenwi i bob swyddog sefydliadau cymunedol a ddynodir o dan baragraff (2)(a) yr eitemau hynny ym mharagraff (1)(a) i (d), a niferoedd digonol ohonynt, y mae eu hangen ar y swyddog sefydliadau cymunedol er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swyddog sefydliadau cymunedol hwnnw o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i bob cydgysylltydd sefydliadau cymunedol a ddynodir o dan baragraff (2)(a) ddanfôn—

- (a) pecyn sefydliadau cymunedol i bob sefydliad cymunedol y mae ei gyfeiriad wedi ei gynnwys yn y rhestr o gyfeiriadau y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(c) ac sydd o fewn dosbarth cyfrifo'r swyddog sefydliadau cymunedol hwnnw,
- (b) nifer digonol o becynnau unigolyn i bob un o'r sefydliadau cymunedol hynny at ddiben y cyfrifiad, ac
- (c) pecynnau sefydliadau cymunedol a phecynnau unigolyn i unrhyw sefydliadau cymunedol eraill a nodir gan y swyddog sefydliadau cymunedol yn nosbarth cyfrifo'r swyddog sefydliadau cymunedol.

(4) Mae dyletswydd swyddog sefydliadau cymunedol i ddanfôn pecynnau cyfrifiad o dan baragraff (3) wedi ei bodloni mewn perthynas â phob sefydliad cymunedol os yw'r swyddog sefydliadau cymunedol yn danfon y pecynnau cyfrifiad at y person a chanddo ofal am y tro dros y sefydliad cymunedol neu, pan na fo person o'r fath ar gael, os yw'r swyddog sefydliadau cymunedol—

- (a) yn gadael y pecynnau cyfrifiad gyda pherson cyfrifol sy'n honni ei fod yn gweithredu ar ran y person hwnnw a chanddo ofal am y tro dros y sefydliad cymunedol, neu
- (b) pan na fo unigolyn cyfrifol o'r fath ar gael, yn gadael y pecynnau cyfrifiad yn y cyfeiriad perthnasol sydd wedi ei gynnwys yn yr offeryn rheoli gwaith maes.

(5) Caiff y cydgysylltydd sefydliadau cymunedol gyfarwyddo'r swyddog sefydliadau cymunedol i

ddosbarthu cynifer o'r pecynnau unigolyn ag a ddanfonir o dan baragraff (3) i'r personau hynny sy'n breswylwyr arferol yn y sefydliad cymunedol ac y mae'n ymddangos i'r swyddog sefydliadau cymunedol eu bod yn alluog i lenwi'r holiadur sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn.

(6) Os yw'n ymddangos i'r swyddog sefydliadau cymunedol nad yw preswyllydd arferol yn alluog i lenwi'r holiadur hwnnw, caiff y swyddog sefydliadau cymunedol draddodi'r pecyn unigolyn i berthynas i'r preswyllydd arferol, neu i berson arall, sydd wedi cytuno i lenwi'r holiadur ar ran y preswyllydd arferol yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad.

(7) Caiff swyddog sefydliadau cymunedol ofyn i'r person a chanddo ofal am y tro dros sefydliad cymunedol ddsbarthu pecynnau unigolyn mewn perthynas â'r sefydliad cymunedol hwnnw, yn yr un modd ag a nodir ym mharagraffau (5) a (6).

(8) Rhaid i bob swyddog sefydliadau cymunedol—

- (a) gwneud cofnod yn y ddyfais gyfrifiad electronig o'r canlynol—
 - (i) pob pecyn sefydliadau cymunedol a phob pecyn unigolyn sydd wedi eu danfon yn unol â pharagraff (3)(a), (b) neu (c),
 - (ii) unrhyw sefydliadau cymunedol ychwanegol y mae'r swyddog sefydliadau cymunedol wedi danfon pecynnau sefydliadau cymunedol a phecynnau unigolyn iddynt o dan baragraff (3)(c), a
 - (iii) casglu holiaduron papur;
- (b) galluogi'r cydgysylltydd sefydliadau cymunedol i gael mynediad i'r wybodaeth yn nyfais gyfrifiad electronig y swyddog sefydliadau cymunedol neu'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r ddyfais honno.

(9) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n atal swyddog sefydliadau cymunedol rhag cael ei ddynodi i ddanfon pecynnau i fwy nag un dosbarth cyfrifo.

Cais i gael pecynnau cyfrifiad a chodau mynediad unigryw newydd

12.—(1) Os yw'r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni, rhaid i'r Awdurdod ddarparu unrhyw becyn cyfrifiad neu god mynediad unigryw newydd i unrhyw berson rhagnodedig sy'n gofyn amdano.

(2) Yr amodau hynny yw fel a ganlyn—

- (a) ym marn yr Awdurdod, mae'r pecyn cyfrifiad neu'r cod mynediad unigryw newydd yn berthnasol i'r person rhagnodedig hwnnw, a
- (b) mae'r person sy'n gwneud y cais yn darparu i'r Awdurdod y cyfeiriad y mae'r person

(neu'r personau) rhagnodedig y mae'r holiadur i'w lenwi mewn cysylltiad ag ef (neu â hwy) yn breswlydd arferol ynddo (ac yn y ddarpariaeth hon, ystyr "yr holiadur" yw'r holiadur sy'n ymwneud â'r pecyn cyfrifiad neu'r cod mynediad unigryw newydd y gofynnwyd amdano).

(3) Rhaid i'r Awdurdod ddarparu unrhyw becyn cyfrifiad y gofynnir amdano o dan baragraff (1) i'r cyfeiriad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b) a chaiff anfon pecynnau cyfrifiad o'r fath drwy'r post neu eu danfon â llaw i'r cyfeiriad hwnnw.

(4) Caiff yr Awdurdod ddarparu cod mynediad unigryw newydd o dan baragraff (1) drwy—

- (a) anfon y cod drwy'r post, neu ei ddanfon â llaw (ac yn y naill achos neu'r llall, rhaid i'r Awdurdod anfon neu ddanfon y cod mynediad unigryw newydd i'r cyfeiriad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b)), neu
- (b) anfon y cod yn uniongyrchol i rif ffôn symudol a ddarparwyd gan y person sy'n gwneud y cais i gael y cod mynediad unigryw newydd.

Dychwelyd holiaduron aelwydydd ac etholwyr

13.—(1) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn aelwyd ar-lein wedi ei anfon neu ei ddanfon ato, neu y derbyniwyd danfoniad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir yn y pecyn i gael mynediad i holiadur H2(online) neu H2W(ar-lein), a
- (b) llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(2) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn papur i aelwydydd neu becyn aelwyd (parhad) wedi ei anfon neu ei ddanfon ato, neu y derbyniwyd danfoniad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) llenwi, fel y bo'n briodol, gopi o'r holiadur H2(papur), H2W(papur), HC2(papur) neu HC2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn a'i roi yn yr amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir a'i anfon i'r Awdurdod drwy'r post. Caniateir i holiaduron o'r fath gael eu hanfon i'r Awdurdod drwy'r post yn yr un amlen wedi ei thalu ymlaen llaw, neu
- (b) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir i gael mynediad i'r holiadur

H2(online) neu H2W(ar-lein), a llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn electronig yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(3) Mae paragraff (2) (ac nid paragraff (1)) yn gymwys i berson rhagnodedig sydd wedi cael pecyn ar-lein i aelwydydd ond sydd hefyd wedi gofyn am becyn papur i aelwydydd.

(4) Rhaid i bob etholwr sydd wedi gofyn am becyn ar-lein i unigolion ac wedi ei gael, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir yn y pecyn i gael mynediad i holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein), a
- (b) llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(5) Rhaid i bob etholwr sydd wedi gofyn am becyn papur i unigolion ac wedi ei gael, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) llenwi'r copi o holiadur I2(papur) neu I2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn, ei roi yn yr amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir a'i anfon i'r Awdurdod drwy'r post, neu
- (b) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir yn y pecyn i gael mynediad i'r holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein), a llenwi a chyflwyno holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein) yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(6) Rhaid i bob etholwr sicrhau bod un o'r holiaduron a ganlyn: H2(online) neu H2W(ar-lein), H2(papur) neu H2W(papur), HC2(papur) neu HC2W(papur), I2(online) neu I2W(ar-lein), I2(papur) neu I2W(papur), wedi ei lenwi mewn cysylltiad ag ef ei hunan.

(7) Pan fo holiadur H2(online) neu H2W(ar-lein), holiadur H2(papur) neu H2W(papur), neu holiadur HC2(papur) neu HC2W(papur) wedi ei lenwi mewn cysylltiad ag etholwr, caiff yr etholwr hwnnw ddewis cydymffurfio â pharagraff (4) neu (5) (ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny).

(8) Mae holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein), neu holiadur I2(papur) neu I2W(papur) a gyflwynir gan etholwr yn drech na holiadur H2(online) neu H2W(ar-lein), holiadur H2(papur) neu H2W(papur), neu holiadur HC2(papur) neu HC2W(papur), mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth am yr etholwr hwnnw.

(9) Cyn gynted â phosibl ar ôl i bob holiadur H2(online), H2W(ar-lein), H2(papur), H2W(papur),

HC2(papur), HC2W(papur), I2(online), I2W(ar-lein), I2(papur) neu I2W(papur) wedi ei lenwi ddod i law'r Awdurdod, rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod yr holiadur perthnasol wedi ei ddychwelyd.

(10) Pan fo penodai wedi ei fodloni, ar ôl siarad â pherson rhagnodedig at ddibenion erthygl 5(1) neu (3) o Orchymyn y Cyfrifiad, nad yw'r person rhagnodedig—

- (a) yn alluog i lenwi a dychwelyd holiadur, na
- (b) yn gallu awdurdodi unrhyw berson i weithredu ar ran y person rhagnodedig, wedyn mae paragraff (11) yn gymwys.

(11) O ran y penodai—

- (a) caiff, yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, wneud ymholiadau ynghylch y manylion y byddai Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r person rhagnodedig y cyfeirir ato ym mharagraff (10) eu darparu, a
- (b) rhaid iddo gofnodi'r atebion i'r ymholiadau hynny y caniateir iddynt gael eu defnyddio at ddiben y cyfrifiad.

(12) Cyn gynted â phosibl ar ôl i benodai gofnodi'r atebion yn unol â pharagraff (11)(b), rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod cofnod o'r fath wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r person rhagnodedig hwnnw.

Dychwelyd holiaduron sefydliadau cymunedol

14.—(1) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn ar-lein i sefydliadau cymunedol wedi ei anfon neu ei ddanfon ato mewn sefydliad cymunedol, neu y derbyniwyd danfoniad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir yn y pecyn i gael mynediad i holiadur CE2(online) neu CE2W(ar-lein), a
- (b) llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(2) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn papur i sefydliadau cymunedol wedi ei anfon neu ei ddanfon ato mewn sefydliad cymunedol, neu y derbyniwyd danfoniad ar ei ran o dan y Rheoliadau hyn, drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) llenwi'r copi o holiadur CE2(papur) neu CE2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn, ei roi yn yr amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir, a'i anfon i'r Awdurdod drwy'r post, neu

- (b) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir i gael mynediad i holiadur CE2(online) neu CE2W(ar-lein) a llenwi'r holiadur a'i gyflwyno wedi ei lenwi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein.

(3) Mae paragraff (2) (ac nid paragraff (1)) yn gymwys i berson rhagnodedig sydd wedi cael pecyn ar-lein i sefydliadau cymunedol ond sydd hefyd wedi gofyn am becyn papur i sefydliadau cymunedol.

(4) Rhaid i bob person rhagnodedig y mae pecyn unigolyn wedi ei draddodi iddo o dan reoliad 11(5), (6) neu (7), drannoeth diwrnod y cyfrifiad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

- (a) defnyddio'r cod mynediad unigryw a ddarperir yn y pecyn i gael mynediad i holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein) a llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein,
- (b) llenwi'r copi o holiadur I2(papur) neu I2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn, ei roi yn yr amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir a'i anfon i'r Awdurdod drwy'r post, neu
- (c) os yw'n cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan y swyddog sefydliadau cymunedol, ddanfôn yr holiadur I2(papur) neu I2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn ac sydd wedi ei lenwi at y person a chanddo ofal am y tro dros y sefydliad cymunedol neu at y swyddog sefydliadau cymunedol.

(5) Rhaid i'r person a chanddo ofal am y tro dros y sefydliad cymunedol y traddodir holiadur I2(papur) neu I2W(papur) wedi ei lenwi iddo gan berson rhagnodedig (pa un ai o dan baragraff (4)(c) neu fel arall)—

- (a) sicrhau bod yr holiadur wedi ei roi mewn amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a heb oedi, ei anfon i'r Awdurdod drwy'r post, neu
- (b) danfon yr holiadur at y swyddog sefydliadau cymunedol.

(6) Mewn cysylltiad â phob holiadur papur wedi ei lenwi a gesglir gan y swyddog sefydliadau cymunedol yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r swyddog sefydliadau cymunedol wneud cofnod yn nyfais gyfrifiad electronig y swyddog sefydliadau cymunedol.

Cynnal y cyfrifiad ar gyfer personau yng Ngrŵp G

15. Rhaid i gydgyssylltydd cyfrifiad, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, wneud trefniadau yn ardal cydgyssylltydd cyfrifiad y cydgyssylltydd cyfrifiad hwnnw—

- (a) i holiadur CE2(online) neu CE2W(ar-lein), neu holiadur CE2(paper) neu CE2W(papur) gael ei lenwi a'i gyflwyno mewn cysylltiad ag unrhyw grŵp o bersonau rhagnodedig sy'n llenwi holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein), neu holiadur I2(paper) neu I2W(papur) yn unigol o dan baragraff (b);
- (b) i becyn papur i unigolion gael ei draddodi i'r personau rhagnodedig yng Ngrŵp G yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad ac i bob person rhagnodedig naill ai—
 - (i) defnyddio'r cod mynediad unigryw sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn i gael mynediad i holiadur I2(online) neu I2W(ar-lein) a llenwi a chyflwyno'r holiadur hwnnw yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar-lein, neu
 - (ii) llenwi'r copi o holiadur I2(paper) neu I2W(papur) sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn, ei roi yn yr amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir a'i anfon i'r Awdurdod drwy'r post; neu ei draddodi i'r person sy'n llenwi holiadur o dan baragraff (a).

Y weithdrefn pan na fo'r Awdurdod yn cael holiadur neu pan fo'n cael holiadur anghyflawn

16.—(1) Rhaid i'r Awdurdod—

- (a) gwirio'r cofnodion yn y system olrhain holiaduron a chynhyrchu rhestr o gyfeiriadau ar gyfer pob ardal cydgysylltydd cyfrifiad ac ardal cydgysylltydd sefydliadau cymunedol y mae'r Awdurdod wedi anfon neu wedi danfon pecyn cyfrifiad neu god mynediad unigryw newydd iddynt ond nad yw'r Awdurdod wedi cael holiadur wedi ei lenwi mewn cysylltiad â hwy yn unol â'r Rheoliadau hyn;
- (b) darparu i bob cydgysylltydd cyfrifiad a phob cydgysylltydd sefydliadau cymunedol y rhestr o gyfeiriadau y cyfeirir ati yn is-baragraff (a) sy'n berthnasol iddynt.

(2) Rhaid i bob cydgysylltydd cyfrifiad a phob cydgysylltydd sefydliadau cymunedol drefnu yn eu tro i swyddogion cyfrifiad a swyddogion sefydliadau cymunedol ddefnyddio'r rhestr o gyfeiriadau y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b) i wneud unrhyw ymholiadau y mae'r swyddogion hynny yn meddwl eu bod yn rhesymol i unrhyw berson er mwyn cael y manylion y mae Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i berson rhagnodedig eu darparu.

(3) Pan fo swyddog cyfrifiad neu swyddog sefydliadau cymunedol wedi gwneud ymholiadau o dan baragraff (2) i berson rhagnodedig nad yw'r

Awdurdod wedi cael holiadur mewn cysylltiad ag ef, caiff y swyddog—

- (a) casglu holiadur wedi ei lenwi,
- (b) annog y person hwnnw i lenwi holiadur a'i gyflwyno i'r Awdurdod yn unol â'r Rheoliadau hyn,
- (c) cytuno y caniateir i'r holiadur wedi ei lenwi gael ei gyflwyno drwy'r post gan ddefnyddio'r amlen wedi ei thalu ymlaen llaw a ddarperir,
- (d) gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer casglu'r holiadur papur y mae'r swyddog yn meddwl eu bod yn addas, neu
- (e) darparu cod mynediad unigryw newydd neu holiadur papur arall.

(4) Rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron pa bryd bynnag y daw holiadur wedi ei lenwi i'w law ar ôl i'r camau o dan baragraffau (2) a (3) gael eu cymryd.

(5) Pan fo holiadur yn dod i law'r Awdurdod ond nad yw'r holiadur yn cynnwys rhai o'r manylion neu'r holl fanylion yr oedd Gorchymyn y Cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r person rhagnodedig eu darparu, wedyn o ran penodai—

- (a) caiff wneud, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan yr Awdurdod, unrhyw ymholiadau y mae'r penodai yn meddwl eu bod yn rhesymol i unrhyw berson er mwyn cael y manylion coll, a
- (b) rhaid iddo gofnodi'r atebion i'r ymholiadau hynny y caniateir iddynt gael eu defnyddio at ddiben y cyfrifiad.

(6) Cyn gynted â phosibl ar ôl i benodai gofnodi'r atebion yn unol â pharagraff (5)(b), rhaid i'r Awdurdod wneud cofnod yn y system olrhain holiaduron i ddangos bod cofnod o'r fath wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r person rhagnodedig hwnnw.

Rhoi gwybodaeth

17.—(1) Rhaid i bob person y mae ffurflen i'w llenwi mewn cysylltiad ag ef o dan Orchymyn y Cyfrifiad, i'r graddau y mae'r person hwnnw yn gallu gwneud hynny, roi i'r person rhagnodedig sy'n atebol am lenwi'r ffurflen unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, y gall fod ei hangen yn rhesymol ar y person rhagnodedig at ddiben cyflawni rhwymedigaethau'r person rhagnodedig hwnnw o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i bob person rhagnodedig roi i unrhyw benodai yr wybodaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, y gall fod ei hangen yn

rhesymol ar y penodai er mwyn cyflawni dyletswyddau'r penodai o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Ni chaiff person, y rhoddir gwybodaeth bersonol iddo yn unol â'r Rheoliadau hyn, heb awdurdod cyfreithlon—

- (a) defnyddio'r wybodaeth honno (ac eithrio at ddiben cyflawni rhwymedigaeth o dan y Rheoliadau hyn), na
- (b) ei chyhoeddi na'i chyfathrebu i unrhyw berson arall (ac eithrio at ddiben cyflawni rhwymedigaeth o dan y Rheoliadau hyn).

Cadw holiaduron, cofnodion a dogfennau'n ddiogel

18.—(1) Rhaid i unrhyw berson sydd, pa un ai ar ran y person hwnnw ei hunan neu ar ran unrhyw berson arall, â holiaduron neu â chofnodion a dogfennau eraill o dan ei ofal (gan gynnwys unrhyw gofnodion a dogfennau a gaiff eu storio ar ddyfais gyfrifiad electronig neu unrhyw gofnodion a dogfennau y ceir mynediad iddynt drwy ddyfais gyfrifiad electronig) sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r cyfrifiad, gadw'r holiaduron, y cofnodion a'r dogfennau hynny yn y modd hwnnw sy'n atal unrhyw berson nad yw wedi ei awdurdodi rhag cael mynediad iddynt.

(2) Pan fo unrhyw benodai yn cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan yr Awdurdod, rhaid iddo anfon i'r Awdurdod pob holiadur, cofnod a dogfen sydd ym meddiant y penodai hwnnw, gan gynnwys unrhyw gofnodion a dogfennau a gaiff eu storio ar ddyfais gyfrifiad electronig neu unrhyw gofnodion a dogfennau y ceir mynediad iddynt drwy ddyfais gyfrifiad electronig.

(3) Rhaid i'r Awdurdod drefnu i'r canlynol gael eu storio'n ddiogel—

- (a) holiaduron wedi eu llenwi,
- (b) unrhyw gofnodion a dogfennau papur neu electronig eraill sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r cyfrifiad, ac
- (c) unrhyw ddyfeisiau electronig y cyfrifiad tra bo'r dyfeisiau hynny yn cynnwys gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r cyfrifiad neu y mae modd cael mynediad i wybodaeth bersonol o'r fath o hyd drwyddynt.

Cadw dyfeisiau electronig y cyfrifiad yn ddiogel

19. Rhaid i unrhyw berson sy'n cael dyfais gyfrifiad electronig—

- (a) defnyddio'r ddyfais gyfrifiad electronig yn y modd hwnnw sy'n atal unrhyw berson nad yw wedi ei awdurdodi rhag cael mynediad i'r ddyfais,

- (b) sicrhau bod y ddyfais yn cael ei storio'n ddiogel ar bob adeg pan nad yw'n cael ei defnyddio yn y modd hwnnw sy'n atal unrhyw berson nad yw wedi ei awdurdodi rhag cael mynediad i'r ddyfais, ac
- (c) gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Awdurdod ynghylch pryd neu at bwy i ddychwelyd y ddyfais.

Datganiadau statudol ac ymgymeriadau

20.—(1) Rhaid i bob penodai y rhoddir caniatâd iddo gan yr Awdurdod i gael mynediad i'r storfeydd data electronig wneud datganiad statudol sy'n cynnwys y geiriau a nodir yn Atodlen 3, yn unol â'r trefniadau a wneir gan yr Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penodiad y penodai gan yr Awdurdod neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

(2) Caiff unrhyw gyflogai i'r Awdurdod (os yw'n cael ei gyfarwyddo'n addas gan yr Awdurdod i wneud hynny) gymryd y datganiad statudol y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i bob penodai nad yw'n ofynnol iddo gwblhau datganiad statudol o dan baragraff (1) gwblhau ffurflen yr ymgymeriad a nodir yn Atodlen 4, yn unol â'r trefniadau a wneir gan yr Awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penodiad y penodai neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

(4) Nid yw'n ofynnol i unrhyw benodai a benodwyd gan yr Awdurdod cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ac a gwblhaodd ffurflen ymgymeriad a chanddi'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r ffurflen yn Atodlen 4, gwblhau ymgymeriad arall yn rhinwedd y rheoliad hwn.

(5) At ddibenion paragraff (1), ystyr "storfeydd data electronig" yw'r systemau electronig hynny y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio i storio'r manylion a gofnodir yn yr holl holiaduron y mae'r Awdurdod yn eu cael.

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion
Cymru

28 Mai 2020

ATODLEN 1 Rheoliadau 3(2) a 6(3)

Tabl

(1)	<i>Personau</i>	<i>(2) Enw fersiwn Saesneg yr holiadur</i>	<i>(3) Enw fersiwn Gymraeg yr holiadur</i>
<p>Y deiliad aelwyd neu'r cyd-ddeiliaid aelwyd, neu yn absenoldeb unrhyw berson o'r fath sy'n alluog i lenwi ffurflen, unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran y deiliad aelwyd neu'r cyd-ddeiliaid aelwyd, ar bob aelwyd yng Nghymru.</p>	<p>Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Household Questionnaire (online)" yn Rhan 1 o Atodlen 2.</p>	<p>Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (ar-lein) y Cartref" yn Rhan 1 o Atodlen 2.</p>	
<p>Pan fo erthygl 5(11) o Orchymyn y Cyfrifiad yn gymwys, y person sy'n gyfrifol o dan yr erthygl honno am lenwi ffurflen yng Nghymru.</p>	<p>Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Household Continuation Questionnaire (paper)" yn Rhan 5 o Atodlen 2.</p>	<p>Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (papur) y Cartref (Parhad)" yn Rhan 5 o Atodlen 2.</p>	

Pob preswlydd arferol a bennir yng ngholofn (2) yng Ngrŵp B i F yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw, yng Nghymru.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Individual Questionnaire (online)" yn Rhan 2 o Atodlen 2.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (ar-lein) i Unigolion" yn Rhan 2 o Atodlen 2.

Pob person a bennir yng ngholofn (2) o Grŵp G yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ei ran, yng Nghymru.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Individual Questionnaire (paper)" yn Rhan 6 o Atodlen 2.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (papur) i Unigolion" yn Rhan 6 o Atodlen 2.

Unrhyw etholwr yng Nghymru sy'n llenwi ffurflen unigolyn yn unol â Gorchymyn y Cyfrifiad.

Y person a chanddo ofal am y tro dros unrhyw fangre neu lestr a grybwyllir yng Ngrŵp B i F yn Atodlen 1 i Orchymyn y Cyfrifiad, yng Nghymru.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Communal Establishment Questionnaire (online)" yn Rhan 3 o Atodlen 2.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (ar-lein) i Sefydliadau Cymunedol" yn Rhan 3 o Atodlen 2.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Communal Establishment Questionnaire (paper)" yn Rhan 7 o Atodlen 2.

Yr holiadur sy'n dwyn yr enw "Holiadur (papur) i Sefydliadau Cymunedol" yn Rhan 7 o Atodlen 2.

ATODLEN 2 Rheoliad 5(1)(a) a (b) ac Atodlen 1

Holiaduron: disgrifiad

RHAN 1

Holiadur (ar-lein) y Cartref

(1) Cwestiwn	(2) Opsiynau Ymateb
Gwybodaeth am y cartref	
Ydych chi'n byw yn (<i>cyfeiriad</i> y <i>cyfrifiad</i>) fel arfer?	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Ydw, rwy'n byw yma fel arfer</p> <p>—Nac ydw, nid wyf yn byw yma fel arfer</p> <p><i>Os dewisir yr opsiwn ymateb "Ydw, rwy'n byw yma fel arfer", ni ofynnir y cwestiynau isod yng ngholofn (1) sydd â (†). Os dewisir yr opsiwn</i></p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	<i>ymateb</i> “ <i>Nac ydw, nid wyf yn byw yma fel arfer</i> ”, <i>ni ofynnir y cwestiynau cyn y rhai sydd â</i> (†).
Beth yw eich enw?	<i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i> <i>Enw cyntaf</i> <i>Enw(au) canol</i> <i>Cyfenw</i>
Oes unrhyw un o’r bobl ganlynol hefyd yn byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>) ddydd Sul 21 Mawrth 2021?	<i>Dewisir pob un sy’n berthnasol:</i> —Aelodau o’r teulu a phartneriaid (dylech gynnwys babanod a anwyd ar neu cyn 21 Mawrth 2021, plant, myfyrwyr a phlant ysgol sy’n byw i ffwrdd o’r cartref yn ystod y tymor) —Tenantiaid, lojers neu bobl sy’n rhannu cartref —Pobl sy’n byw y tu allan i’r Deyrnas Unedig fel arfer, ond sy’n aros yn y Deyrnas Unedig am 3 mis neu fwy —Pobl sydd i ffwrdd o’r cartref dros dro (er enghraifft, yn gweithio i ffwrdd, ar wyliau, yn y lluoedd arfog, yn byw mewn sefydliad fel cartref gofal am hyd at 6 mis, dramor am hyd at flwyddyn) —Pobl sy’n aros dros dro, sy’n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig (er enghraifft, preswylwyr y Deyrnas Unedig sydd rhwng cyfeiriadau neu heb gartref ar hyn o bryd) Neu —Dim un o’r rhain yn berthnasol, fi yw’r unig berson sy’n byw yma fel arfer
Pwy arall sy’n byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?	<i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i> <i>Enw cyntaf</i> <i>Enw(au) canol</i> <i>Cyfenw</i>
Oes unrhyw un arall yn byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?	<i>Dewisir un o’r canlynol:</i> —Oes, mae angen i mi ychwanegu (<i>ail, trydydd ac ati</i>) unigolyn (<i>Os caiff ei ddewis, caiff y cwestiwn union uchod yng ngholofn (1) ei ailadrodd.</i>) —Nac oes, nid oes angen i mi ychwanegu unrhyw un
(†) Oes unrhyw un o’r bobl ganlynol yn byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>) ddydd Sul 21 Mawrth 2021?	<i>Dewisir pob un sy’n berthnasol:</i> —Aelodau o’r teulu a phartneriaid (dylech gynnwys babanod a anwyd ar neu cyn 21 Mawrth 2021, plant, myfyrwyr a phlant ysgol sy’n byw i ffwrdd o’r cartref yn ystod y tymor) —Tenantiaid, lojers neu bobl sy’n rhannu cartref —Pobl sy’n byw y tu allan i’r Deyrnas Unedig fel arfer, ond sy’n aros yn y Deyrnas Unedig am 3 mis neu fwy —Pobl sydd i ffwrdd o’r cartref dros dro (er enghraifft, yn gweithio i ffwrdd, ar wyliau, yn y

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	<p>lluocedd arfog, yn byw mewn sefydliad fel cartref gofal am hyd at 6 mis, dramor am hyd at flwyddyn)</p> <p>—Pobl sy'n aros dros dro, sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig (er enghraifft, preswylwyr y Deyrnas Unedig sydd rhwng cyfeiriadau neu heb gartref ar hyn o bryd)</p> <p>Neu</p> <p>—Dim un o'r rhain yn berthnasol, nid oes neb yn byw yma fel arfer (er enghraifft, ail gyfeiriad neu dŷ gwyliau yw hwn)</p>
<p>(†) Pwy sy'n byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i></p> <p><i>Enw cyntaf</i></p> <p><i>Enw(au) canol</i></p> <p><i>Cyfenw</i></p>
<p>(†) Oes unrhyw un arall yn byw yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Oes, mae angen i mi ychwanegu (<i>ail, trydydd ac ati</i>) unigolyn (<i>Os caiff ei ddewis, caiff y cwestiwn union uchod yng ngholofn (1) ei ailadrodd, ond gofynnir: “Pwy arall sy'n byw yn (cyfeiriad y cyfrifiad)?”</i>)</p> <p>—Nac oes, nid oes angen i mi ychwanegu unrhyw un</p>
<p>Ar wahân i bawb a gafodd eu cynnwys eisoes, pwy arall sy'n aros dros nos ddydd Sul 21 Mawrth 2021 yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <p>—Pobl sydd fel arfer yn byw yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, cariadon, ffrindiau, perthnasau</p> <p>—Pobl sy'n aros yma gan mai dyma eu hail gyfeiriad, er enghraifft, oherwydd gwaith. Mae eu cyfeiriad parhaol neu gyfeiriad y teulu yn rhywle arall</p> <p>—Pobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer, ac sy'n aros yn y Deyrnas Unedig am lai na 3 mis</p> <p>—Pobl sydd ar wyliau yma</p> <p>Neu</p> <p>—Nid oes unrhyw ymwelwyr yn aros yma dros nos ddydd Sul 21 Mawrth 2021 (<i>Os caiff ei ddewis, ni ofynnir y cwestiwn nesaf yng ngholofn (1).</i>)</p>
<p>Beth yw enw'r ymwelydd (<i>ail ymwelydd, trydydd ymwelydd ac ati</i>) sy'n aros dros nos ddydd Sul 21 Mawrth 2021 yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i></p> <p><i>Enw cyntaf</i></p> <p><i>Cyfenw</i></p>
<p>Gwybodaeth am berthynas aelodau o'r cartref â'i gilydd</p>	
<p><i>Disgrifir y berthynas rhwng yr ymatebydd a phob preswilydd arall yn y cartref:</i></p> <p>(<i>Enw'r preswilydd arall hwnnw</i>) yw eich (<i>gwahoddiad i ddewis un o'r opsiynau ymateb gyferbyn, a ddangosir wedyn i gwblhau'r datganiad hwn</i>).</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Gŵr neu wraig</p> <p>—Partner sifil cofrestredig cyfreithiol</p> <p>—Partner</p> <p>—Mab neu ferch</p> <p>—Llysblentyn</p> <p>—Brawd neu chwaer (<i>gan gynnwys hanner</i>)</p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	<p>brawd neu hanner chwaer) —Llysfrawd neu lyschwaer —Mam neu dad —Llysfam neu lysdad —Ŵyr neu wyres —Taid/tad-cu neu nain/mam-gu —Perthynas arall —Ddim yn perthyn (gan gynnwys plentyn maeth)</p>
<p><i>Disgrifir y berthynas rhwng pob preswlydd arall yn y cartref (os yw'r ymatebydd yn breswlydd), neu'r berthynas rhwng y preswlywyr yn y cartref (lle nad yw'r ymatebydd yn breswlydd):</i></p> <p>Gan feddwl am (<i>enw preswlydd dau ac ati</i>), mae (<i>enw preswlydd tri ac ati</i>) yn (<i>gwahoddiad i ddewis un o'r opsiynau ymateb gyferbyn, a ddangosir wedyn i gwblhau'r datganiad hwn</i>) i (<i>enw preswlydd dau ac ati</i>).</p>	<p><i>Dewisir un o'r opsiynau ymateb a ddangosir mewn perthynas â'r cwestiwn union uchod yng ngholofn (1).</i></p>
Gwybodaeth am lety'r cartref	
<p>Pa fath o gartref yw (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Tŷ neu fyngalo cyfan —Fflat neu maisonette —Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro
<p><i>Os mai "Tŷ neu fyngalo cyfan" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pa un o'r canlynol yw eich tŷ neu eich byngalo?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Adeilad ar wahân —Tŷ neu fyngalo semi —Tŷ neu fyngalo mewn teras (gan gynnwys ar y pen)
<p><i>Os mai "Fflat neu maisonette" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Ble mae eich fflat neu maisonette?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol —Yn rhan o dŷ wedi'i addasu neu dŷ sy'n cael ei rannu (gan gynnwys fflatiau un ystafell) —Rhan o adeilad arall wedi'i addasu (er enghraifft, hen ysgol, eglwys neu warws) —Mewn adeilad masnachol (er enghraifft, mewn adeilad o swyddfeydd, gwesty, neu uwchben siop)
<p>Ydy pob ystafell yn y cartref, gan gynnwys y gegin, yr ystafell ymolchi a'r toiled, y tu ôl i ddrws sydd ddim ond yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o'r cartref hwn?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Ydy —Nac ydy, mae o leiaf un o'r ystafelloedd yn cael ei rhannu ag aelodau o gartref arall
<p>Sawl ystafell wely sydd at ddefnydd aelodau o'r cartref hwn yn unig?</p>	<p><i>Nodir nifer yr ystafelloedd gwely</i></p>
<p>Pa fath o wres canolog sydd yn (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?</p>	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Dim gwres canolog —Prif gyflenwad nwy —Nwy tanc neu botel —Trydan (gan gynnwys gwresogyddion stôr) —Olew

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	<p>—Coed (er enghraifft boncyffion, pren gwastraff neu belenni)</p> <p>—Tanwydd solet (er enghraifft, glo)</p> <p>—Ynni adnewyddadwy (er enghraifft, pypmiau gwres neu solar thermol)</p> <p>—Rhwydweithiau gwres rhanbarthol neu gymunedol</p> <p>—Arall</p>
<p><i>Os oes un neu fwy o breswylwyr arferol yng nghyfeiriad y cyfrifiad, yna:</i></p> <p>Oes aelod neu aelodau o'ch cartref yn berchen ar (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>) neu'n ei rentu?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Yn berchen arno'n gyfan gwbl</p> <p>—Yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad</p> <p>—Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol (cynllun rhan-berchenogaeth)</p> <p>—Yn ei rentu (gyda chymorth budd-dal tai neu hebddo)</p> <p>—Yn byw yma heb dalu rhent</p>
<p><i>Os mai "Yn berchen arno'n rhannol ac yn ei rentu'n rhannol (cynllun rhan-berchenogaeth)", neu "Yn ei rentu (gyda chymorth budd-dal tai neu hebddo)" neu "Yn byw yma heb dalu rhent" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pwy yw eich landlord?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Cymdeithas dai, cwmni tai cydweithredol, ymddiriedolaeth elusennol, landlord cymdeithasol cofrestredig</p> <p>—Y cyngor neu'r awdurdod lleol</p> <p>—Landlord preifat neu asiantaeth gosod tai</p> <p>—Cyflogwr aelod o'r cartref</p> <p>—Perthynas neu ffrind i aelod o'r cartref</p> <p>—Arall</p>
<p><i>Os oes un neu fwy o breswylwyr arferol yng nghyfeiriad y cyfrifiad, yna:</i></p> <p>Sawl car neu fan sy'n eiddo i aelodau o'r cartref hwn, neu sydd ar gael i'w defnyddio ganddynt?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Dim un</p> <p>—1</p> <p>—2</p> <p>—3</p> <p>—4</p> <p>—5 neu fwy (<i>os felly nodir union nifer y ceir neu faniau</i>)</p>
Gwybodaeth am breswylwyr unigol	
<p>Ai chi yw (<i>enw'r preswilydd</i>)?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Ie</p> <p>—Na, rwy'n ateb ar ran yr unigolyn hwn</p>
<p>Beth yw eich dyddiad geni?</p>	<p><i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i></p> <p><i>Diwrnod-Mis-Blwyddyn</i></p>
<p>Rydych chi'n (<i>oedran wedi'i gyfrifo'n awtomatig</i>) oed (<i>neu 'mis oed' neu 'diwrnod oed' yn dibynnu ar oedran y preswilydd</i>). Ydy hyn yn gywir?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Ydy, rwy'n (<i>oedran wedi'i gyfrifo'n awtomatig</i>) oed (<i>mis neu ddiwrnod</i>)</p> <p>—Nac ydy, mae angen i mi gywiro fy nyddiad geni</p>
<p>Beth yw eich rhyw?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Benyw</p> <p>—Gwryw</p>
<p>Yn gyfreithiol, beth yw eich statws priodasol neu statws eich partneriaeth sifil gofrestrdig ar 21 Mawrth 2021?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil</p> <p>—Priod</p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	<p>—Mewn partneriaeth sifil gofrestredig</p> <p>—Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod</p> <p>—Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod mewn partneriaeth sifil</p> <p>—Wedi ysgaru</p> <p>—Wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol</p> <p>—Person gweddw</p> <p>—Wedi colli partner sifil cofrestredig drwy farwolaeth</p>
<p><i>Os mai "Priod" neu "Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod" yw'r ymateb yna:</i></p> <p><i>Pwy yw eich priod cyfreithiol?</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Person o'r rhyw arall</p> <p>—Person o'r un rhyw</p>
<p><i>Os mai "Wedi ysgaru" neu "Person gweddw" yw'r ymateb yna:</i></p> <p><i>Pwy oedd eich priod cyfreithiol?</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Person o'r rhyw arall</p> <p>—Person o'r un rhyw</p>
<p><i>Os mai "Mewn partneriaeth sifil gofrestredig" neu "Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod mewn partneriaeth sifil" yw'r ymateb yna:</i></p> <p><i>Pwy yw eich partner sifil cofrestredig?</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Person o'r rhyw arall</p> <p>—Person o'r un rhyw</p>
<p><i>Os mai "Wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol" neu "Wedi colli partner sifil cofrestredig drwy farwolaeth" yw'r ymateb yna:</i></p> <p><i>Pwy oedd eich partner sifil cofrestredig?</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Person o'r rhyw arall</p> <p>—Person o'r un rhyw</p>
<p><i>Ydych chi'n aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn?</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Nac ydw</p> <p>—Ydw, mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig (<i>os felly nodir y cyfeiriad a'r cod post</i>)</p> <p>—Ydw, mewn cyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (<i>os felly nodir enw presennol y wlad</i>)</p>
<p><i>Os mai "Ydw, mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig" neu "Ydw, mewn cyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig" yw'r ymateb yna:</i></p> <p><i>Pa fath o gyfeiriad yw (cyfeiriad yn y DU)?</i></p> <p><i>Neu</i></p> <p><i>Pa fath o gyfeiriad yw eich cyfeiriad yn (enw'r wlad)?</i></p>	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <p>—Cyfeiriad un o ganolfannau'r lluoedd arfog</p> <p>—Cyfeiriad arall wrth weithio i ffwrdd o'r cartref</p> <p>—Cyfeiriad cartref myfyriwr</p> <p>—Cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor</p> <p>—Cyfeiriad rhiant neu warcheidwad arall</p> <p>—Cyfeiriad partner</p> <p>—Cyfeiriad tŷ gwyliau</p> <p>—Arall</p>
<p><i>Os yw'r unigolyn yn 18 oed neu'n iau:</i></p> <p><i>Ydych chi'n blentyn ysgol neu'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn?</i></p> <p><i>Os yw'r unigolyn yn 19 oed neu drosodd:</i></p>	<p><i>Ar gyfer y naill gwestiwn neu'r llall, dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Ydw</p> <p>—Nac ydw</p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
<p>Ydych chi'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn?</p>	
<p><i>Os mai "Ydw" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Yn ystod y tymor, ble ydych chi'n byw fel arfer?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—(cyfeiriad y cyfrifiad)</p> <p>—(unrhyw gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig neu enw presennol y wlad a roddir mewn ymateb i'r cwestiwn cynharach yng ngholofn (1): "Ydych chi'n aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn?") (Os dewisir hwn, yna dim ond y cwestiynau isod yng ngholofn (1) sydd â (‡) a ofynnir (lle y bo'n berthnasol), ac ni ofynnir y cwestiynau eraill sy'n gysylltiedig.)</p> <p>—Cyfeiriad arall (Os dewisir hwn, yna dim ond y cwestiynau isod yng ngholofn (1) sydd â (‡) a ofynnir (lle y bo'n berthnasol), ac ni ofynnir y cwestiynau eraill sy'n gysylltiedig. Yr eithriad yw'r cwestiwn union isod yng ngholofn (1) sydd hefyd yn cael ei ofyn, os yw'n codi.)</p>
<p><i>Os mai "Cyfeiriad arall" yw'r ymateb (ac os nodwyd "Nac ydw" mewn ymateb i'r cwestiwn cynharach: "Ydych chi'n aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn?") yna:</i></p> <p>Ydy'r cyfeiriad hwn yn y Deyrnas Unedig?</p> <p><i>Ar ôl y cwestiwn hwn, dim ond y cwestiynau isod sydd â (‡) a ofynnir (lle y bo'n berthnasol), ac ni ofynnir y cwestiynau eraill sy'n gysylltiedig.</i></p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Ydy (os felly nodir y cyfeiriad a'r cod post)</p> <p>—Nac ydy (os felly nodir enw presennol y wlad)</p>
<p>Ym mha wlad y cawsoch chi eich geni?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Cymru</p> <p>—Lloegr</p> <p>—Yr Alban</p> <p>—Gogledd Iwerddon</p> <p>—Gweriniaeth Iwerddon</p> <p>—Rhywle arall (os felly nodir enw presennol y wlad)</p>
<p><i>Os mai "Gweriniaeth Iwerddon" neu "Rhywle arall" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pryd ddaethoch chi i fyw yn y Deyrnas Unedig ddiwethaf?</p>	<p><i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i></p> <p><i>Mis-Blwyddyn</i></p>
<p><i>Os mai "Mawrth-2020" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Wnaethoch chi ddod i'r Deyrnas Unedig ar 21 Mawrth 2020 neu ar ôl hynny?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Do</p> <p>—Naddo</p>
<p><i>Os mai "Do" yw'r ymateb, neu os mai'r ymateb i'r cwestiwn cynharach yw "Ebrill-2020" neu unrhyw ddyddiad diweddarach, yn hytrach na "Mawrth-2020", yna:</i></p> <p>Gan gynnwys yr amser rydych chi wedi'i dreulio yma'n barod, am faint ydych chi'n</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Llai na 12 mis</p> <p>—12 mis neu fwy</p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig?	
Flwyddyn yn ôl, beth oedd eich cyfeiriad arferol?	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—(Ile mae mwy nag un ymatebydd mewn cartref, caiff yr ail, trydydd ymatebydd ac ati yr opsiwn ymateb ychwanegol o fabwysiadu'r opsiwn ymateb sydd wedi'i ddewis gan yr ymatebydd cyntaf)</p> <p>—(Cyfeiriad y cyfrifiad)</p> <p>—Cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor neu gyfeiriad ysgol breswyl yn y Deyrnas Unedig (os felly nodir y cyfeiriad a'r cod post)</p> <p>—Cyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig (os felly nodir y cyfeiriad a'r cod post)</p> <p>—Cyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (os felly nodir enw presennol y wlad)</p>
Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <p>—Cymro/Cymraes</p> <p>—Sais/Saesnes</p> <p>—Albanwr/Albanes</p> <p>—Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon</p> <p>—Prydeiniwr/Prydeinwraig</p> <p>—Arall (os felly disgrifir yr hunaniaeth genedlaethol)</p>
Beth yw eich grŵp ethnig?	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Gwyn</p> <p>—Grwpiau Cymysg neu Amlethnig</p> <p>—Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig</p> <p>—Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd</p> <p>—Grŵp ethnig arall</p>
<p><i>Os mai "Gwyn" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pa un sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu eich cefndir Gwyn?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig</p> <p>—Gwyddelig</p> <p>—Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig</p> <p>—Roma</p> <p>—Unrhyw gefndir Gwyn arall (os felly nodir y cefndir Gwyn arall)</p>
<p><i>Os mai "Grwpiau Cymysg neu Amlethnig" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pa un sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu gefndir Cymysg neu Amlethnig?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Gwyn a Du Caribiaidd</p> <p>—Gwyn a Du Affricanaidd</p> <p>—Gwyn ac Asiaidd</p> <p>—Unrhyw gefndir Cymysg neu Amlethnig arall (os felly nodir y cefndir Cymysg neu Amlethnig arall)</p>
<p><i>Os mai "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig" yw'r ymateb yna:</i></p> <p>Pa un sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu eich cefndir Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <p>—Indiaidd</p> <p>—Pacistanaid</p> <p>—Bangladeshaid</p> <p>—Tsieinaidd</p> <p>—Unrhyw gefndir Asiaidd arall (os felly nodir y cefndir Asiaidd arall)</p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
<p>Os mai "<i>Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd</i>" yw'r ymateb yna:</p> <p>Pa un sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu eich cefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Caribiaidd —Affricanaidd (<i>os felly nodir y cefndir Affricanaidd</i>) —Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibiaidd arall (<i>os felly nodir y cefndir Du, Du Prydeinig neu Garibiaidd arall</i>)
<p>Os mai "<i>Grŵp ethnig arall</i>" yw'r ymateb yna:</p> <p>Pa un sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu eich cefndir arall?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Arabaidd —Unrhyw grŵp ethnig arall (<i>os felly nodir y grŵp ethnig arall</i>)
<p>Beth yw eich crefydd?</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Dim crefydd —Cristnogaeth (pob enwad) —Bwdhaeth —Hindŵaeth —Iddewiaeth —Islam —Siciaeth —Unrhyw grefydd arall (<i>os felly nodir y grefydd</i>)
<p>Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?</p>	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Deall Cymraeg llafar —Siarad Cymraeg —Darllen Cymraeg —Ysgrifennu Cymraeg Neu —Dim un o'r rhain
<p>Beth yw eich prif iaith?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Cymraeg neu Saesneg —Arall, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (<i>os felly nodir yr iaith arall</i>)
<p>Os mai "<i>Arall, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain</i>" yw'r ymateb yna:</p> <p>Pa mor dda ydych chi'n gallu siarad Saesneg?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Da iawn —Da —Ddim yn dda —Ddim o gwbl
<p>Pa basbortau sydd gennych chi?</p>	<p><i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Y Deyrnas Unedig —Iwerddon —Arall (<i>os felly nodir y pasbortau sydd gan yr unigolyn</i>) Neu —Dim un
<p>Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> —Da iawn —Da —Gweddol —Gwael —Gwael iawn
<p>Oes gennych chi gyflwr neu salwch corfforol</p>	<p><i>Dewisir un o'r canlynol:</i></p>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
neu feddylol sydd wedi para neu sy'n debygol o bara 12 mis neu fwy?	—Oes —Nac oes
<i>Os mai "Oes" yw'r ymateb yna:</i> Ydy unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych chi'n lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau pob dydd?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydy, yn fawr —Ydy, ychydig —Ddim o gwbl
Ydych chi'n gofalu am unrhyw un, neu'n cynnig unrhyw help neu gefnogaeth i unrhyw un, oherwydd cyflwr neu salwch corfforol neu feddylol hir dymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Nac ydw —Ydw, 9 awr neu lai yr wythnos —Ydw, 10 i 19 awr yr wythnos —Ydw, 20 i 34 awr yr wythnos —Ydw, 35 i 49 awr yr wythnos —Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
Mae'r holl gwestiynau isod yng nghlofn (1) ar gyfer ymatebwyr 16 oed a throsodd yn unig, heblaw am y cwestiynau sydd â (‡). Os yw'n berthnasol, gellir gofyn y cwestiynau hyn i unrhyw ymatebydd	
Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol? Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Heterorywiol/Strêt —Hoyw neu Lesbiaidd —Deurywiol/Bi —Cyfeiriadedd rhywiol arall (<i>os felly nodir y cyfeiriadedd rhywiol</i>)
A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'ch rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni? Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydy —Nac ydy (<i>os felly nodir yr hunaniaeth o ran rhywedd</i>)
Gwybodaeth am gymwysterau	
Ydych chi wedi cwblhau prentisiaeth?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydw (er enghraifft, crefft, uwch, sylfaen neu fodern) —Nac ydw
Oes gennych chi gymhwyster ar lefel gradd neu uwch?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Oes (er enghraifft, gradd, gradd sylfaen, HND neu HNC, NVQ lefel 4 ac uwch, addysgu neu nyrsio) —Nac oes
Oes gennych chi NVQ neu gymhwyster cyfatebol?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol (er enghraifft BTEC Cenedlaethol, OND neu ONC, Crefft Uwch City and Guilds) —NVQ lefel 2 neu gymhwyster cyfatebol (er enghraifft, BTEC Cyffredinol, Crefft City and Guilds) —NVQ lefel 1 neu gymhwyster cyfatebol Neu —Dim un o'r rhain
Oes gennych chi Lefel AS (Safon UG), Lefel A (Safon Uwch) neu gymhwyster cyfatebol?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —2 neu fwy o gymwysterau Lefel A (Safon Uwch) (gan gynnwys 4 Lefel AS (Safon UG) neu fwy) —1 Lefel A (Safon Uwch) (gan gynnwys 2-3

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	Lefel AS (Safon UG) —1 Lefel AS (Safon UG) —Bagloriaeth Cymru – Uwch Neu —Dim un o'r rhain
Oes gennych chi gymhwyster TGAU neu gymhwyster cyfatebol?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —5 neu fwy o gymwysterau TGAU A* i C neu 9 i 4 (gan gynnwys 5 neu fwy Lefel O (marc llwyddo) neu TAUau graddau 1) —Unrhyw gymwysterau TGAU eraill (gan gynnwys unrhyw Lefel O neu TAU arall ar unrhyw radd) —Cwrs Sgiliau Sylfaenol (Sgiliau bywyd, llythrennedd, rhifedd ac iaith) —Bagloriaeth Cymru – Canolradd neu Genedlaethol —Bagloriaeth Cymru – Sylfaen Neu —Dim un o'r rhain
<i>Os mai "Nac ydw", "Nac oes" neu "Dim un o'r rhain" yw'r ymateb i'r holl gwestiynau uchod am gymwysterau, yna:</i> Oes gennych chi unrhyw gymwysterau eraill?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —Oes, o Gymru neu o Loegr —Oes, o unrhyw le y tu allan i Gymru a Lloegr Neu —Dim cymwysterau
Gwybodaeth am swyddi blaenorol a phresennol	
Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn y gorffennol (er enghraifft, y fyddin)?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —Ydw, wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd yn y gorffennol —Ydw, wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Wrth Gefn yn y gorffennol Neu —Nac ydw
Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, oeddech chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —Gwaith cyflogedig —Gwaith hunangyflogedig neu ar eich liwt eich hun —I ffwrdd o'ch gwaith dros dro yn sâl, ar wyliau, neu wedi'ch cadw dros dro o'ch gwaith am na all eich cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd —Ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth —Unrhyw fath arall o waith am dâl Neu —Dim un o'r rhain <i>Os dewisir yr opsiwn ymateb "Dim un o'r rhain", gofynnir y cwestiynau sydd â (‡) yng ngholofn (1) (fel y bo'n briodol) ac ni ofynnir y cwestiynau sy'n gysylltiedig. Os dewisir unrhyw opsiwn neu opsiynau ymateb eraill, gofynnir y cwestiwn cysylltiedig ac ni ofynnir y cwestiynau sydd â (‡).</i>
Yn eich prif swydd, beth yw eich statws	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i>

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
cyflogaeth?	—Gweithiwr cyflogedig —Hunangyflogedig neu'n gweithio ar eich liwt ei hun heb gyflogi gweithwyr eraill —Hunangyflogedig ac yn cyflogi gweithwyr eraill
Beth yw enw'r sefydliad neu'r busnes rydych chi'n gweithio iddo?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> — <i>Nodir enw'r sefydliad neu'r busnes</i> Neu — <i>Dim sefydliad neu'n gweithio i unigolyn preifat</i>
Beth yw teitl llawn eich swydd?	<i>Nodir teitl llawn y swydd</i>
Beth ydych chi'n ei wneud yn eich prif swydd?	<i>Disgrifir y swydd</i>
Beth yw prif weithgarwch eich sefydliad, busnes neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?	<i>Nodir y prif weithgarwch</i>
Ydych chi'n goruchwylio neu'n cadw golwg ar waith gweithwyr eraill o ddydd i ddydd?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydw —Nac ydw
Yn eich prif swydd, sawl awr yr wythnos ydych chi'n gweithio fel arfer?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —0 i 15 awr —16 i 30 awr —31 i 48 awr —49 awr neu fwy
Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf —Trên tanddaearol, metro, tram neu reilffordd ysgafn —Trên —Bws neu fws mini —Taksi —Beic modur, moped neu sgwter —Gyrru car neu fan —Teithiwr mewn car neu fan —Beic —Cerdded —Arall
Ble ydych chi'n gweithio'n bennaf?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Mewn gweithle —Adrodd i ddepo —Gartref neu o'r cartref —Ar safle ar y môr —Dim man penodol
<i>Os mai "Mewn gweithle" neu "Adrodd i ddepo" yw'r ymateb yna:</i> Ydych chi'n gweithio yn y Deyrnas Unedig yn bennaf?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydw (<i>os felly nodir cyfeiriad a chod post y gweithle neu'r depo</i>) —Nac ydw (<i>os felly nodir y wlad</i>)
(↓) Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r hyn roeddech chi'n ei wneud yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?	<i>Dewisir pob un sy'n berthnasol:</i> —Wedi ymddeol (gan dderbyn pensiwn neu beidio) —Astudio —Gofalu am y cartref neu am y teulu —Anabl neu yn sâl am gyfnod hir

<i>(1) Cwestiwn</i>	<i>(2) Opsiynau Ymateb</i>
	—Arall
(↓) Yn ystod y 4 wythnos diwethaf, oeddech chi wrthi'n chwilio am unrhyw fath o waith am dâl?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Oeddwn —Nac oeddwn
(↓) <i>Os mai "Oeddwn" yw'r ymateb yna:</i> Ydych chi ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydw —Nac ydw
(↓) <i>Os mai "Nac oeddwn" yw'r ymateb, ddim wrthi'n chwilio am waith am dâl, neu "Nac ydw", ddim ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf, yna:</i> Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, oeddech chi'n aros i ddechrau swydd roeddech chi eisoes wedi'i derbyn?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Oeddwn —Nac oeddwn
(↓) Ydych chi erioed wedi gwneud unrhyw waith am dâl?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Ydw, yn ystod y 12 mis diwethaf —Ydw, ond nid yn ystod y 12 mis diwethaf —Nac ydw, erioed wedi gweithio (<i>Os caiff ei ddewis, hepgorir y cwestiynau sy'n weddill yng ngholofn (1) sydd â (↓).</i>)
(↓) Yn eich prif swydd, beth oedd eich statws cyflogaeth?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Gweithiwr cyflogedig —Hunangyflogedig neu'n gweithio ar eich liwt ei hun heb gyflogi gweithwyr eraill —Hunangyflogedig ac yn cyflogi gweithwyr eraill
(↓) Beth oedd enw'r sefydliad neu'r busnes roeddech chi'n gweithio iddo?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> — <i>Nodir enw'r sefydliad neu'r busnes</i> Neu — Dim sefydliad neu'n gweithio i unigolyn preifat
(↓) Beth oedd teitl llawn eich swydd?	<i>Nodir teitl y swydd</i>
(↓) Beth oeddech chi'n ei wneud yn eich prif swydd?	<i>Disgrifir y swydd</i>
(↓) Beth oedd prif weithgarwch eich sefydliad, busnes neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?	<i>Nodir y prif weithgarwch</i>
(↓) Oeddech chi'n goruchwyllo neu'n cadw golwg ar waith gweithwyr eraill o ddydd i ddydd?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Oeddwn —Nac oeddwn
Gwybodaeth am ymwelwyr	
(‡) Beth yw dyddiad geni (<i>enw'r ymwelydd</i>)?	<i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i> <i>Diwrnod-Mis-Blwyddyn</i>
(‡) Beth yw rhyw (<i>enw'r ymwelydd</i>)?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Benyw —Gwryw
(‡) Beth yw cyfeiriad arferol (<i>enw'r ymwelydd</i>)?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —(<i>lle mae mwy nag un ymwelydd mewn cartref, caiff yr ail, trydydd ymwelydd ac ati yr opsiwn ymateb ychwanegol o fabwysiadu'r opsiwn ymateb sydd wedi'i ddewis gan yr ymwelydd cyntaf</i>)

(1) <i>Cwestiwn</i>	(2) <i>Opsiynau Ymateb</i>
	—Cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig (<i>os felly nodir y cyfeiriad a'r cod post</i>) —Cyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (<i>os felly nodir enw presennol y wlad</i>)

RHAN 2

Holiadur (ar-lein) i Unigolion

(1) <i>Cwestiwn</i>	(2) <i>Opsiynau Ymateb</i>
Pa fath o gartref yw (<i>cyfeiriad y cyfrifiad</i>)?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Sefydliad cymunedol (er enghraifft, neuadd breswyl i fyfyrwyr, ysgol breswyl, un o ganolfannau'r lluoedd arfog, ysbyty, cartref gofal, carchar) (<i>Os dewisir yr opsiwn ymateb hwn, gofynnir y cwestiwn isod yng ngholofn (1) sydd â (*).</i>) —Cartref preifat neu gartref teulu
Ydych chi'n ateb y cwestiynau hyn drosoch chi eich hun neu ar ran rhywun arall?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Dros of fi fy hun —Ar ran rhywun arall
<i>Os mai "Dros of fi fy hun" yw'r ymateb yna:</i> Beth yw eich enw?	<i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i> <i>Enw cyntaf</i> <i>Enw(au) canol</i> <i>Cyfenw</i>
<i>Os mai "Ar ran rhywun arall" yw'r ymateb yna:</i> Beth yw enw'r unigolyn?	<i>Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:</i> <i>Enw cyntaf</i> <i>Enw(au) canol</i> <i>Cyfenw</i>
(* Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau yn y sefydliad hwn?	<i>Dewisir un o'r canlynol:</i> —Preswlydd (er enghraifft, myfyriwr, aelod o'r lluoedd arfog, claf, carcharor) —Aelod o staff neu berchennog y sefydliad —Perthynas neu bartner i'r perchennog neu i aelod o'r staff —Aros dros dro (heb gyfeiriad arferol yn y Deyrnas Unedig)
2 Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad hwn?

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Awdurdod lleol
- Un o adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth
- Landlord cymdeithasol cofrestredig neu gymdeithas dai
- Elusen neu gorff gwirfoddol
- Cwmni neu berchennog preifat
- Sefydliad addysg uwch neu addysg bellach
- Arall

3 Oes unrhyw un o'r canlynol yn byw yn y sefydliad hwn ar hyn o bryd?

 Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Unrhyw un sydd eisoes wedi treulio, neu sy'n disgwyl treulio, 6 mis neu fwy yn y sefydliad hwn, hyd yn oed os bydd i ffwrdd ar 21 Mawrth 2021
- Preswylwyr y Deyrnas Unedig sy'n aros yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021 ac sydd heb gyfeiriad arferol arall yn y Deyrnas Unedig
- Pobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer, sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, yn y Deyrnas Unedig am 3 mis neu fwy ac sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig
- Myfyrwyr neu blant ysgol sy'n aros yn y sefydliad hwn yn ystod y tymor
- Chi'ch hun, eich teulu, staff ac unrhyw un arall sy'n byw yn y sefydliad hwn
- NEU** ddim un o'r uchod

4 Faint o bobl sy'n byw yn y sefydliad hwn ar hyn o bryd?

5 Oes unrhyw un o'r ymwelwyr canlynol yn aros dros nos yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021?

 Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Unrhyw un â chyfeiriad arferol arall yn y Deyrnas Unedig sydd wedi treulio, neu sy'n disgwyl treulio, llai na 6 mis yn y sefydliad hwn
- Unrhyw un o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am lai na 3 mis
- NEU** ddim un o'r uchod

6 Faint o ymwelwyr sy'n aros dros nos yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021?

RHAN 8

Swyddogaethau a Nodweddion Holiaduron Ar-lein

1. Bydd holiaduron ar-lein a gwefan yr Awdurdod sy'n lletya holiaduron ar-lein yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cyfrifiad ac o ran llenwi a chyflwyno holiaduron ar-lein, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

- (a) dechrau holiadur ar-lein,
- (b) y personau y mae rhaid iddynt lenwi ffurflen y cyfrifiad,
- (c) aelodau o'r aelwyd yn ateb y rhannau o holiadur sy'n berthnasol iddynt hwy,
- (d) pryd y dylid llenwi ffurflen y cyfrifiad,
- (e) sut y bydd yr Awdurdod yn defnyddio ac yn diogelu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson rhagnodedig,
- (f) ble a sut y gellir dod o hyd i gymorth er mwyn llenwi holiadur ar-lein, ac
- (g) natur fandadol y cyfrifiad yn ei gyfanrwydd, ond natur wirfoddol cwestiynau penodol o fewn y cyfrifiad.

2. Bydd holiaduron ar-lein a gwefan yr Awdurdod sy'n lletya holiaduron ar-lein yn cynnwys swyddogaethau a nodweddion er mwyn galluogi—

- (a) person rhagnodedig i gael mynediad i'r holiadur ar-lein perthnasol drwy fewnbynnu cod mynediad unigryw ar-lein,
- (b) i god mynediad unigryw gysylltu'n awtomatig â chyfeiriad aelwyd neu sefydliad cymunedol,
- (c) i gyfeiriad person rhagnodedig gael ei arddangos yn awtomatig pan fo'n berthnasol mewn rhannau gwahanol o holiadur ar-lein,
- (d) pan fo holiadur ar-lein yn cael ei lenwi gan berson ar ran person arall yn unol â'r Rholiadau hyn, i unrhyw eiriau, llythrennau neu atalnodi gael eu haddasu'n awtomatig i sicrhau bod y cyfarwyddiadau neu'r cwestiynau yn gwneud synnwyr yn ramadegol, gan gynnwys rhoi enw'r person y mae'r holiadur ar-lein yn cael ei lenwi ar ei ran yn lle'r geiriau 'chi' ac 'eich' yn awtomatig mewn unrhyw gwestiwn,
- (e) i ymatebion ynghylch y berthynas rhwng un person a'r personau eraill mewn aelwyd o bump neu ragor o bersonau gael eu defnyddio er mwyn casglu perthynas y personau eraill hynny â'i gilydd, gan gynnwys, at y diben hwn, y swyddogaeth i ofyn cwestiwn yn y canol, sef "A yw unrhyw un neu ragor o'r bobl hyn yn perthyn i chi?" neu amrywiadau trydydd person ar y cwestiwn hwnnw,
- (f) i destun gael ei arddangos sy'n cynnwys cyfarwyddiadau neu wybodaeth sy'n ymwneud â llenwi cwestiynau penodol, neu'n ymwneud yn gyffredinol â llenwi'r holiadur ar-lein,
- (g) i wybodaeth gael ei arddangos o ran pam y mae cwestiwn penodol yn bwysig,
- (h) i gwestiynau gael eu hateb mewn trefn wahanol,
- (i) i ystod o opsiynau ymateb rhagbenodedig gael eu cynnig mewn perthynas â chwestiwn,
- (j) i ymatebion sy'n cael eu teipio gael cymorth drwy destun rhagfynegol (pan fo'n briodol),
- (k) i lwybr gael ei bennu drwy'r holiadur ar-lein drwy ddefnyddio cwestiynau i bennu'r llwybr hwnnw,
- (l) i arwydd gael ei roi nad yw cwestiwn sy'n pennu'r llwybr wedi cael ei ateb,
- (m) y gofyniad bod cwestiwn sy'n pennu'r llwybr yn cael ei ateb cyn y caniateir i gwestiynau pellach gael eu hateb,
- (n) atal atebion sy'n anghyson â'i gilydd rhag cael eu dewis mewn ymateb i gwestiwn,
- (o) i awgrym gael ei arddangos pan fo'n briodol i annog adolygu'r ymateb,
- (p) i ymateb gael ei ddiwygio cyn iddo gael ei gyflwyno, a
- (q) i holiadur ar-lein sydd wedi ei lenwi'n rhannol gael ei arbed a'i barhau yn nes ymlaen.

ATODLEN 3

Rheoliad 20(1)

Cynnwys y datganiad statudol

Byddaf fi, [A.B. *etc*], sef person a benodwyd at ddiben cynnal Cyfrifiad 2021 (“y cyfrifiad”), yn cyflawni’r dyletswyddau a neilltuir imi o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 a Rheoliadau’r Cyfrifiad (Cymru) 2020 (“dyletswyddau yn y cyfrifiad”) yn llawn ac yn onest.

Byddaf yn cyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad gan gydymffurfio â darpariaethau adran 39 o Ddeddf Ystadegau a’r Gwasanaeth Cofrestru 2007, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a phob rhwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall. Yr wyf yn deall y gall methu â chydymffurfio â’r rhwymedigaethau hynny arwain at euogfarn droseddol a dirwy neu garchariad.

Ac eithrio wrth gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad, ni fyddaf yn datgelu nac yn mynegi, ar unrhyw bryd, unrhyw fater y caf wybod amdano ynglŷn ag unrhyw berson, teulu neu aelwyd.

Dim ond i gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad y byddaf yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau mynediad a roddir imi, gan gynnwys unrhyw bäs diogelwch, cyfryngau electronig, deunydd adnabod personol neu gyfrineiriau. Ni fyddaf yn rhoi benthyg, yn trosglwyddo nac yn datgelu fel arall ddeunyddiau o’r fath i unrhyw berson arall, oni bai fy mod yn cael fy nghyfarwyddo’n benodol i wneud hynny gan y Bwrdd Ystadegau.

Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennyf ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad â’r dyletswyddau yn y cyfrifiad, neu o ran unrhyw faterion eraill sy’n ymwneud â’r cyfrifiad pa un a ydynt yn deillio o’r gweithredoedd i neu weithredoedd pobl eraill, yn uniongyrchol i’r Bwrdd Ystadegau.

ATODLEN 4 Rheoliad 20(3) a (4)

Ffurflen ymgymeriad

Yr wyf fi, [A.B. *etc*], sef person a benodwyd at ddiben cynnal Cyfrifiad 2021 (“y cyfrifiad”), yn ymrwmo y byddaf yn cyflawni’r dyletswyddau a neilltuir imi o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 a Rheoliadau’r Cyfrifiad (Cymru) 2020 (“dyletswyddau yn y cyfrifiad”) yn llawn ac yn onest.

Byddaf yn cyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad gan gydymffurfio â darpariaethau adran 39 o Ddeddf Ystadegau a’r Gwasanaeth Cofrestru 2007, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a phob rhwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall. Yr wyf yn deall y gall methu â chydymffurfio â’r rhwymedigaethau hynny arwain at euogfarn droseddol a dirwy neu garchariad.

Ac eithrio wrth gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad, ni fyddaf yn datgelu nac yn mynegi, ar unrhyw bryd, unrhyw fater y caf wybod amdano ynglŷn ag unrhyw berson, teulu neu aelwyd.

Dim ond i gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad y byddaf yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau mynediad a roddir imi, gan gynnwys unrhyw bäs diogelwch, cyfryngau electronig, deunydd adnabod personol neu gyfrineiriau. Ni fyddaf yn rhoi benthyg, yn trosglwyddo nac yn datgelu fel arall ddeunyddiau o’r fath i unrhyw berson arall, oni bai fy mod yn cael fy nghyfarwyddo’n benodol i wneud hynny gan y Bwrdd Ystadegau.

Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennyf ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad â’r dyletswyddau yn y cyfrifiad, neu o ran unrhyw faterion eraill sy’n ymwneud â’r cyfrifiad pa un a ydynt yn deillio o’r gweithredoedd i neu weithredoedd pobl eraill, yn uniongyrchol i’r Bwrdd Ystadegau.

Llofnodwyd _____

Dyddiedig _____

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
1 Mehefin 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y trefniadau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n angenrheidiol i gynnal cyfrifiad 2021 ac yn rhagnodi'r holiaduron a gaiff eu defnyddio. Mae enghreifftiau o'r holiadur papur a disgrifiadau o'r cwestiynau a'r opsiynau ymateb ar gyfer yr holiadur ar-lein wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r Rheoliadau.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920. Mae adran 3(2) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn darparu bod rhaid gosod y Rheoliadau am gyfnod o 20 diwrnod eistedd. Yn ystod y cyfnod hwn, caniateir eu dirymu. Mae'r cyfnod eistedd 20 diwrnod anarferol hwn wedi'i ddisodli gan adran 5(2) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 sy'n darparu bod y cyfnod dirymu yn para 40 diwrnod.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 yn galluogi dwyn Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 i rym. Cymeradwywyd Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 gan Senedd y DU ar 14 Mai 2020 ac fe'i gwnaed gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 20 Mai 2020.

Mae adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn galluogi Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn yn cyfarwyddo bod cyfrifiad ar gyfer Prydain Fawr neu unrhyw ran ohoni yn cael ei gynnal. Yng Nghymru a Lloegr, trosglwyddwyd y dyletswyddau o dan adran 2 o Ddeddf 1920 sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer cyfrifiad a'i gynnal (a roddwyd gynt i'r Cofrestrydd Cyffredinol) i'r Bwrdd Ystadegau gan baragraffau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18). Yn ymarferol, mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu harfer gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), sef swyddfa weithredol i'r Bwrdd Ystadegau (a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf 2007).

Mae adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau cyfrifiad ar gyfer y trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol sy'n angenrheidiol i gynnal cyfrifiad yn unol â gorchymyn cyfrifiad.

Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau cyfrifiad ar gyfer Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006 (O.S. 2006/3334). Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920, mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Arolwg a gynhelir bob deng mlynedd o holl bobl a chartrefi'r Deyrnas Unedig yw'r cyfrifiad. Mae'n darparu gwybodaeth hanfodol o lefel genedlaethol i lefel cymdogaeth i'r llywodraeth, busnesau a'r gymuned.

Mae cymryd rhan yn y cyfrifiad yn orfodol (yn orfodadwy o dan y Rheoliadau hyn). Fodd bynnag, mae'r cwestiynau ynglŷn â chrefydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn wirfoddol o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920, fel y'i diwygiwyd yn Neddf y Cyfrifiad (Diwygio) 2000 a Deddf y Cyfrifiad (Manylion y Ffurflen a Dileu Cosbau) 2019, a chânt eu nodi'n glir fel cwestiynau gwirfoddol.

Mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gynnwys pawb yn y cyfrifiad gan mai hwn yw'r unig broses o gasglu data sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan ac mae'n unigryw am ei fod yn cwmpasu pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau ym mhobman. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl cael data ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth ac ardaloedd daearyddol bach, a chymharu gwahanol rannau o'r DU.

Am y tro cyntaf, caiff y cyfrifiad yn 2021 ei gynnal ar-lein yn bennaf. Mae hyn yn dilyn adolygiad gan SYG ar ddarparu ystadegau ynglŷn â'r boblogaeth yn y dyfodol yng Nghymru a Lloegr, ac argymhelliad bod anghenion yn cael eu diwallu drwy gynnal cyfrifiad ar-lein yn bennaf yn 2021. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth i'r dull arfaethedig hwn o gynnal y cyfrifiad mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2014 gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Mae Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 (O.S. 2020/532) yn darparu y bydd y cyfrifiad yn cwmpasu pob unigolyn sy'n bresennol yng Nghymru neu yn Lloegr ar noson y cyfrifiad, a hefyd bobl sy'n absennol os ydynt yn breswylwyr arferol. Mae'r cyfrifiad, sydd i'w gynnal ar 21 Mawrth 2021, yn rhoi'r cyfrifoldeb i gwblhau holiaduron ar-lein neu bapur ar ddeiliaid tai ac ar unigolion a phobl sy'n gyfrifol am sefydliadau cymunedol, gydag eithriadau i ymdrin ag amgylchiadau penodol. Mae darpariaethau Gorchymyn y Cyfrifiad yn debyg yn fras i'r rhai mewn cyfrifiadau blaenorol.

Diben y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer y trefniadau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n angenrheidiol i gynnal cyfrifiad 2021 yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi dwyn Gorchymyn y Cyfrifiad i rym. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer y canlynol:

- sut y caiff y wlad ei rhannu at ddibenion gweinyddol y cyfrifiad a'r personau i'w penodi o fewn yr ardaloedd gweinyddol hynny;
- cyfrifoldebau'r personau a gyflogir at ddibenion y cyfrifiad;
- cyflwyno holiaduron dwyieithog ar-lein y ceir atynt drwy god mynediad unigryw, ynghyd â darparu holiaduron papur dwyieithog;
- y dyletswyddau ar berson i lenwi holiaduron a'u dychwelyd;
- darparu systemau olrhain holiaduron, offer rheoli gwaith maes a dyfeisiau electronig y cyfrifiad er defnydd y rhai a gyflogir i gynnal y cyfrifiad er mwyn rheoli'r cyfrifiad ac olrhain ffurflenni'r cyfrifiad;

- paratoi a darparu pecynnau'r cyfrifiad i'w cwblhau gan y rhai y mae'n ofynnol iddynt lenwi ffurflen y cyfrifiad;
- y broses o ddarparu pecynnau a chodau mynediad newydd er mwyn llenwi ffurflen;
- y broses o ddarparu ffurflen y cyfrifiad;
- lle y bo angen, dylai gwybodaeth gael ei rhoi i'r personau y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflen y cyfrifiad;
- y weithdrefn a gaiff ei dilyn os nad yw ffurflen angenrheidiol wedi cael ei chyflwyno neu os yw'n anghyflawn;
- y broses o sicrhau bod holiaduron, cofnodion a dogfennau a geir neu a gynhyrchir mewn perthynas â'r cyfrifiad yn cael eu cadw'n ddiogel, ynghyd â sicrhau bod dyfeisiau electronig y cyfrifiad yn cael eu cadw'n ddiogel;
- mae'n rhaid i'r person a gyflogir i ddefnyddio'r system data electronig wneud datganiad statudol ynghylch cyfrinachedd data'r cyfrifiad;
- copïau enghreifftiol o'r holiaduron papur ac ar-lein a disgrifiad o'r ffordd y mae'r holiaduron ar-lein yn gweithredu.

5. Ymgynghori

Mae manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud dim – Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i gynnal cyfrifiad 2021. Mae Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 (O.S. 2020/532) yn cyfarwyddo y bydd cyfrifiad yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth 2021. Drwy wneud dim, ni fyddai'r trefniadau gweithdrefnol yn cael eu rhoi ar waith i ganiatáu i gyfrifiad 2021 gael ei gynnal yng Nghymru.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau hyn – Drwy wneud y Rheoliadau hyn, gellir cynnal cyfrifiad 2021 yng Nghymru, fel y cyfarwyddir o dan Orchymyn y Cyfrifiad 2020.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Gwneud Dim

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, ni ellid gwireddu manteision cynnal y cyfrifiad. Ni fyddai Cymru yn gallu defnyddio unrhyw ddata o gyfrifiad 2021, yn wahanol i wledydd eraill y DU, lle y byddai'r cyfrifiad yn parhau i fynd rhagddo. Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr data'r cyfrifiad barhau i ddefnyddio data o gyfrifiad 2011 neu ffynonellau eraill, neu gomisiynu gwaith casglu data costus. Gallai gwneud dim arwain at nifer o

ganlyniadau posibl, gan gynnwys camddyrrannu adnoddau, gwaith cynllunio gwael ac ymyriadau wedi'u targedu'n wael.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau hyn

Mae SYG wedi paratoi achos busnes llawn dros Raglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data. Mae'r rhaglen yn destun proses adnewyddu'r achos busnes yn flynyddol, a gymeradwyir gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

Costau

Gwnaeth SYG ddarpariaeth o tua £900 miliwn ar gyfer Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data a'r Rhaglen Trawsnewid Digidol ar gyfer y cyfnod 2015-2026. Mae'r arian yn trawsnewid gweithgareddau casglu data SYG, ac yn darparu arbedion effeithlonrwydd, drwy ddefnyddio mwy o ddata gweinyddol a data arolwg a gesglir ar-lein. Mae'r cyfrifiad yng Nghymru yn rhan o'r rhaglen drawsnewid honno.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar SYG.

Ym mis Gorffennaf 2006, cytunodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd ac Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ar egwyddorion cytundeb cyllido ar gyfer cyfrifiad Cymru a Lloegr. Nododd y cytundeb hwn y bydd SYG yn talu am "fusnes fel arfer" mewn perthynas â'r cyfrifiad, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn talu am unrhyw newidiadau y mae'n eu gosod. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod unrhyw newidiadau ar gyfer cyfrifiad 2021 a fyddai'n achosi costau ychwanegol; felly, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Ystyrir bod effaith y ddeddfwriaeth hon ar gostau busnesau, llywodraeth leol a chyrrff gwirfoddol yn fach iawn, a hynny oherwydd nad casglu data busnes yw diben y cyfrifiad. Yr unig effaith ar fusnesau fydd y gofyniad i bersonau sy'n gyfrifol am sefydliadau cymunedol masnachol gyflwyno ffurflen mewn perthynas â'r sefydliad ac unrhyw breswylwyr neu garcharorion sy'n preswyllo ar eu safle, na allant gyflwyno eu ffurflen eu hunain.

Bydd awdurdodau lleol yn mynd i rai costau o ganlyniad i'w cydweithrediad â SYG wrth gynllunio a chynnal y cyfrifiad. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi penodi Rheolwr Cyswllt y Cyfrifiad a Rheolwr Cyswllt Cynorthwyol y Cyfrifiad. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y rhain yn swyddi llawn amser a disgwylir y byddai swyddogion presennol yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn ochr yn ochr â'u rôl arferol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd gynorthwyo gyda gwaith ar gofrestrau cyfeiriadau'r cyfrifiad, datblygu cysylltiadau cymunedol, cefnogi staff maes lleol a hyrwyddo'r cyfrifiad yn eu hardal. Mae cost y gweithgareddau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar faint yr awdurdod; felly, nid oes modd cyfrifo cost gyfartalog. Fodd bynnag, ystyrir bod y manteision sy'n gysylltiedig â chael data cyfrifiad yn fwy na'r costau yr eid iddynt.

Manteision

Mae manteision y cyfrifiad i ddefnyddwyr wedi cael eu mesur, gan roi tua £5 o fudd yn yr economi ehangach am bob £1 sy'n caei ei gwario. Bydd hefyd fanteision ychwanegol sylweddol, i'r llywodraeth yn enwedig, na fu modd eu

mesur (er enghraifft, ar gyfer datblygu polisi pensiynau a gwaith monitro cydraddoldeb). At hynny, mae'r cyfrifiad yn cefnogi blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, megis Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; agendâu digidol a data Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (drwy newid i gasglu data ar-lein) a datblygu cofrestr cyfeiriadau agored genedlaethol.

Defnyddir data cyfrifiad i ddyrannu adnoddau ar gyfer llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Yng Nghymru, defnyddir data'r cyfrifiad i ddyrannu tua £500m o gyllid llywodraeth leol yn uniongyrchol. Mae'r data hefyd yn llywio £2.0bn arall o setliad llywodraeth leol drwy gael eu defnyddio fel y llinell sylfaen ar gyfer data ar y boblogaeth a'r dangosyddion teneurwydd poblogaeth a ddefnyddir.

Mae'r broses o ddyrannu adnoddau iechyd yng Nghymru yn defnyddio'r cyfrifiad fel rhan o asesiad o angen ychwanegol. Nid oes modd cyfrifo union ffigur i ddangos manteision data'r cyfrifiad. Fodd bynnag, mae amcangyfrif yn awgrymu, pe na bai data cyfrifiad wedi bod ar gael, a phe bai rhaid defnyddio'r ffynhonnell data orau nesaf (Arolwg Cenedlaethol Cymru), y gall fod gwahaniaethau mewn dyraniadau o hyd at 6% i rai byrddau iechyd. Byddai hyn yn cyfateb i ddyrannu tua £70m yn wahanol, pe bai'n cael ei gymhwyso at gyfrannau targed ar yr elfen gyfan sy'n ymwneud â gwasanaethau ysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol.

Yn ogystal â'r defnydd gan y sector cyhoeddus, defnyddir y data a gesglir drwy'r cyfrifiad gan nifer mawr o sefydliadau masnachol, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn olrhain eu hachau.

Dyletswyddau Statudol a Chyrff Statudol

Mae'r cyfrifiad yn un o'r ffynonellau data allweddol ar y Gymraeg a meysydd cydraddoldebau yng Nghymru. Pe na bai'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, ni fyddai data ar y pynciau hyn ar gael ar gyfer ardaloedd daearyddol bach na grwpiau bach o'r boblogaeth. Gallai hyn gael effaith ar ddatblygu polisïau, monitro a thargedu ymyriadau. Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr y data hyn ddibynnu ar ffynonellau eraill (er enghraifft, data arolwg) a fyddai'n llai manwl ac yn llai dibynadwy, ac mewn rhai achosion ni fyddai'r data ar gael o gwbl.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn eu hasesiadau llesiant lleol, mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus fel rhan o asesu llesiant yn eu hardal, gynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa o ran llesiant ym mhob ardal gymunedol ac yn yr ardal yn ei chyfanrwydd. Defnyddir data'r cyfrifiad yn eang i ddarparu data perthnasol yn yr asesiadau llesiant lleol hyn a heb y data diweddaraf o gyfrifiad 2021, byddai angen i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ddibynnu ar ddata llai manwl neu gyfredol neu fuddsoddi'n sylweddol mewn ffynonellau data amgen.

Mae SYG wedi cyhoeddi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb¹ (wedi'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2020) sy'n ystyried a yw'r wybodaeth y bydd yn ei

¹Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cyfrifiad 2021, <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy>

chasglu o'r cyfrifiad, a'r ffordd y mae'r cyfrifiad yn cael ei gynnal, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae SYG wedi ymrwymo i sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Rheoliadau cysylltiedig yn cael eu bodloni drwy wneud trefniadau priodol ar gyfer gweithgareddau cyfrifo, cyhoedduswydd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys:

- fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiaduron ar-lein a'r rhai papur ac unrhyw ohebiaeth allweddol arall;
- llinell gymorth Gymraeg a chyfleusterau ar-lein Cymraeg pwrpasol;
- defnyddio staff maes dwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.

8. Ymgynghori

Er nad yw ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal ar y Rheoliadau hyn, rydym wedi ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Bwrdd Ystadegau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae cyfres o weithgareddau ymgynghori drwy raglen gyfan y cyfrifiad wedi llywio'r broses o ddatblygu'r Rheoliadau hyn. Ceir crynodeb o'r rhaglen ymgynghori hon isod. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda SYG drwy gydol y broses o ddatblygu cyfrifiad 2021 er mwyn sicrhau y caiff gofynion Cymru eu hystyried.

Ymgynghori â defnyddwyr

Mae cynnwys cyfrifiad 2021 wedi cael ei lywio'n bennaf gan ofynion defnyddwyr ystadegau'r cyfrifiad, yn ogystal â gwerthusiad o gyfrifiad 2011 a chyngor ac arweiniad sefydliadau sydd wedi cael profiad o weithrediadau tebyg. Mae SYG wedi bod yn ymgysylltu'n eang ar gwestiynau'r cyfrifiad. Cynhaliodd SYG raglen helaeth o waith ymgynghori, ymchwil, casglu tystiolaeth a gwerthuso.

Ym mis Mehefin 2015, lansiodd SYG ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a oedd yn gofyn i ddefnyddwyr y cyfrifiad am eu safbwyntiau a thystiolaeth o'r gofynion ar gyfer yr holiadur yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cyfrifiad 2021. Gallai unrhyw un gymryd rhan a llywiodd yr adborth a gafwyd ragor o ymchwil, a gyfrannodd at ddatblygu, profi a gwerthuso cwestiynau arfaethedig y cyfrifiad. Cafwyd 1,095 o ymatebion i'r ymgynghoriad ledled Cymru a Lloegr: 279 gan sefydliadau ac 816 gan unigolion.

Cyhoeddwyd ymateb llawn SYG i'r ymgynghoriad ym mis Mai 2016², a nodwyd y meini prawf a ddefnyddiwyd i werthuso pynciau a safbwyntiau SYG ar y rhai hynny y dylid eu cynnwys yng nghyfrifiad 2021. Cyhoeddodd SYG adroddiadau ar bynciau unigol hefyd, gyda phob un yn nodi'r gwerthusiad o'r pwnc hwnnw

² Cyfrifiad 2021 Asesiad o Ofynion Cychwynnol Defnyddwyr o ran Cynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr: Ymateb i'r Ymgynghoriad
<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/assessmentofinitialuserrequirementscontentforenglandandwales/maintopicreportwelshlanguage.pdf>

yn erbyn y meini prawf penodedig, y safbwynt diweddaraf ynglŷn â'r pwnc hwnnw, goblygiadau i gydraddoldeb a'r camau nesaf i'w cymryd.

Ym mis Mehefin 2015 a mis Gorffennaf 2016, cynhaliodd SYG sioeau teithiol rhanbarthol er mwyn rhannu'r newyddion diweddaraf ar gynnwys arfaethedig holiadur Cyfrifiad 2021.

Ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd SYG raglen ymchwil ac ymgysylltu barhaus â grwpiau rhanddeiliaid, ac â'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, er mwyn profi gwahanol opsiynau dyluniad cwestiynau. Gwnaeth SYG hefyd weithio gyda nifer o bartïon â diddordeb i ddeall anghenion manwl ar gyfer cwestiynau a diffiniadau penodol, gan gynnwys:

- adrannau'r llywodraeth yr ymgynghorwyd â nhw drwy'r Penaethiaid Proffesiwn yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a'r pwyllgorau rhyngadrannol, a thrwy gydgyssylltu ag arbenigwyr pwnc yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth;
- Grwpiau Cynghori ar y Cyfrifiad (gan gynnwys Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad i Gymru) gyda chynrychiolwyr o adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd; y gymuned academiaidd, busnesau a chymdeithasau proffesiynol, a defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb yng Nghymru, a chyrrff yn y trydydd sector sy'n cynrychioli buddiannau cymunedau lleol, grwpiau lleiafrifol yn y boblogaeth, pobl ag anableddau a sefydliadau ffydd;
- cyfarfod â rhanddeiliaid yn rheolaidd yng Nghymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, er enghraifft [Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru](#) a [Phanel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector](#);
- digwyddiadau bord gron yng Nghymru, gan gynnwys fforwm polisi cyhoeddus a digwyddiad â rhanddeiliaid â diddordeb yn y Gymraeg;
- arbenigwyr pwnc a methodolegwyr yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, yr ymgynghorwyd â nhw'n rheolaidd er mwyn cael eu gwybodaeth fanwl, arbenigol.

Drwy ymgysylltu o'r fath, cafwyd dealltwriaeth lawnach o bwysigrwydd nodau ac amcanion Cyfrifiad 2021 a chefnogaeth iddynt.

Drwy gydgyssylltu â grwpiau cymunedol, elusennau a chyrrff eraill yn y trydydd sector, helpwyd SYG i sicrhau bod y cyfrifiad, yn ogystal â diwallu anghenion ystadegol defnyddwyr, yn cael ei gefnogi, a'i gwblhau, gan bob rhan o'r gymuned.

Ymgynghori â'r Senedd a Senedd y DU

Mae SYG hefyd wedi ymgynghori â'r Senedd a Senedd y DU ar wahanol agweddau ar gynigion y cyfrifiad.

Mae hyn wedi golygu ymateb i Gwestiynau'r Senedd a Chwestiynau Senedd y DU, gohebiaeth swyddogol gan Seneddwr a Phwyllgorau Dethol, gan weithio gyda nifer o Grwpiau Seneddol Hollbleidiol, yn ogystal ag ymddangos mewn digwyddiadau a gynhaliwyd yn Senedd y DU.

Rhoddodd SYG dystiolaeth ar baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021 i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 18 Ebrill 2018; ac ar 25 Medi 2019, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu i Aelodau o'r Senedd yn y Senedd.

Ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar fersiwn ddrafft o Orchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 drwy ohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Gweinidogion dros y Cyfansoddiad.

9. Asesu'r gystadleuaeth

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn caniatáu i gyfrifiad arfaethedig 2021 gael ei gynnal, ac mae'n ei lywodraethu. Bydd wedi cyflawni ei nodau a bydd wedi bod yn llwyddiannus, os cynhelir y cyfrifiad ar 21 Mawrth 2021 ac os yw'r gweithgareddau a'r prosesau cysylltiedig sy'n angenrheidiol i gynnal y cyfrifiad yn llwyddiant, gyda phobl yn cwblhau eu holiadur yn ôl y gofyn, a bod yr holiaduron hyn yn cael eu casglu, eu prosesu a'u dadansoddi er mwyn paratoi allbynnau ystadegol.

Bydd ymgynghori drwy gydol 2020 er mwyn penderfynu pa ddata ystadegol sydd eu hangen ar ddefnyddwyr Cyfrifiad 2021. Bydd hyn yn helpu SYG a Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu anghenion o ran allbynnau a pharatoi allbynnau sy'n berthnasol i ddefnyddwyr.

Bydd SYG yn paratoi adroddiad ar ôl y cyfrifiad, a fydd yn adolygu'r gweithrediad cyfan, a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr ag allbynnau'r cyfrifiad. Mae SYG hefyd yn bwriadu cyflwyno cynigion ynglŷn â sut y bydd data o fath data'r cyfrifiad yn cael eu casglu yn y dyfodol yn y blynyddoedd ar ôl Cyfrifiad 2021 a bydd yn gwneud argymhelliad i'r llywodraeth ar ddyfodol y cyfrifiad.

SL(5)553 - Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Cefndir a diben

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn gostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli mewn perthynas â cheisiadau am daliadau amrywiol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol 2020 yn unol â chyfraith yr UE.

Yng ngoleuni'r pandemig, cyhoeddodd yr UE Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/532, yn rhanddirymu'r gofynion cyfredol yng nghyfraith yr UE yn ymwneud â Chynllun y Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2020 ynghylch rhai gwiriadau gweinyddol a gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n gymwys o fewn y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Mae'r Rheoliadau'n adlewyrchu'r rhanddirymiadau, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae'r Rheoliadau'n addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 ("y Rheoliad Gweithredu") (sy'n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013) mewn perthynas â'r system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yng nghyd-destun taliadau i ffermwyr.

Yn wahanol i gyfraith arall yr UE yn ymwneud â'r PAC, nid yw newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu. Gan hynny, mae angen deddfwriaeth ddomestig i ostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli yng nghyd-destun Cynllun y Taliad Sylfaenol 2020. Mae cyfraith yr UE yn dal i lywodraethu elfennau eraill o'r PAC, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig.

Mae'r Rheoliadau:

- yn gwneud newidiadau gweinyddol i'r modd y gellir defnyddio technoleg i gynnal gwiriadau; a
- yn gostwng cyfradd isaf y gwiriadau yn y fan a'r lle o gymharu â'r cyfraddau rheoli arferol ar gyfer rhwymedigaethau Gwyrddu, trawsgydymffurfio, Cynllun y Taliad Sylfaenol, aiddosbarthu a ffermwyr ifanc.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei lywodraethu mwyach gan gyfraith yr UE o ganlyniad i Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael. Cafodd deddfwriaeth y UE sy'n llywodraethu cynlluniau Taliadau Uniongyrchol PAC 2020 ei hymgorffori mewn cyfraith ddomestig drwy'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar y Diwrnod Ymadael. Yn wahanol i gyfreithiau eraill yr UE sy'n ymwneud â'r PAC, nid yw newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu, ac felly mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth ddomestig ostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol 2020 yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 2020/532. Mae cyfraith yr UE yn parhau i lywodraethu elfennau eraill o'r PAC, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Mehefin 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 134

Legislation, Justice and Constitution Committee

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 531 (Cy. 125)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr
(Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru)
(Coronafeirws) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae rheoliad 2 yn addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 ("Rheoliad 809/2014") sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Mae Rheoliad 809/2014 yn gosod rheolau ar gyfer amseru gwiriadau yn y fan a'r lle, cyfraddau rheoli gwiriadau yn y fan a'r lle penodol o fewn y system integredig gan gynnwys ar gyfer cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd, a chynyddu neu ostwng y cyfraddau rheoli. Yn ogystal, mae Rheoliad 809/2014 yn cynnwys rheolau ar wiriadau yn y fan a'r lle sy'n ymwneud â meini prawf cymhwystra, ac ymrwymadau.

Mae nifer o rwymedigaethau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 a Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn dibynnu ar amserlenni penodol a gwahanol ar gyfer eu cyflawni, ac o ganlyniad maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwiriadau yn y fan a'r lle gael eu cynnal o fewn yr amserlenni hynny. Mae'r mesurau sydd ar waith i ymdrin â phandemig COVID-19 yn effeithio ar ddichonoldeb cyflawni'r gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n ofynnol yn gywir ac o fewn y terfynau amser cyfatebol.

Mae rheoliad 2 yn darparu ar gyfer rhanddirymu'r gofynion hynny ac yn gostwng cyfradd isaf y gwiriadau yn y fan a'r lle o gymharu â'r cyfraddau rheoli arferol ar gyfer rhwymedigaethau Gwyrddu, trawsgydymffurfio, Cynllun y Taliad Sylfaenol, ailddosbarthu a ffermwyr ifanc.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 531 (Cy. 125)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr
(Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru)
(Coronafeirws) 2020**

Gwnaed *21 Mai 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *22 Mai 2020*

Yn dod i rym *14 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan Erthygl 62(2)(a) a (b) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

-
- (1) Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 352/78, (EC) Rhif 165/94, (EC) Rhif 2799/98, (EC) Rhif 814/2000, (EC) Rhif 1290/2005 ac (EC) Rhif 485/2008 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 549). Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (roedd Erthygl 137 o'r Cytundeb ar Ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd (19 Hydref 2019) yn darparu nad yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn gymwys i'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020). Roedd Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr. I'r graddau y mae'n ymwneud â chynlluniau taliadau uniongyrchol y PAC ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020. Mae Erthygl 62(2) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi ei diwygio gan reoliad 7(4) o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Yn benodol, mae'r swyddogaeth yn Erthygl 62(2) wedi ei diwygio fel ei bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (gweler Erthygl 2(1)(k) ac (m) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 am y diffiniadau o "relevant authority" ac "appropriate authority"). Mae diwygiadau eraill i Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mehefin 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae “blwyddyn hawlio 2020” i’w dehongli yn unol ag adran 1(7) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020(1);

ystyr “Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014” (“*Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2014*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(2), fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014

2. At ddibenion blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 yn cael effaith fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff cyntaf Erthygl 24(4)—

“By way of derogation from the first subparagraph of this paragraph, the competent authority may, in relation to the checks to be carried out in relation to area-related aid schemes, use photo-interpretation of satellite or aerial

(1) 2020 p. 2.

(2) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio (OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69). I'r graddau y mae'n ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ddiwygio gan reoliad 14 o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

ortho-images or other relevant evidence including evidence provided by the beneficiary at the request of the competent authority, including geotagged photos, which could permit definitive conclusions to be drawn to the satisfaction of the competent authority.”;

- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl trydydd is-baragraff Erthygl 26(4)—

“By way of derogation from the first three subparagraphs of this paragraph, the relevant authority may carry out the checks by the use of new technologies, or other relevant evidence, including geotagged photos, in addition to the possibility to use remote sensing in accordance with Article 40.”;

- (c) yn Erthygl 30(d), “3%” wedi ei roi yn lle “5%”;
- (d) yn Erthygl 31(1)(a), “3%” wedi ei roi yn lle “5%” yn y ddau le y mae’n digwydd;
- (e) Erthygl 33a wedi ei hepgor;
- (f) yn Erthygl 36(2), “1%” wedi ei roi yn lle “3%”;
- (g) yn Erthygl 68(1), “0.5%” wedi ei roi yn lle “1%”.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru

21 Mai 2020

**Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru)
(Coronafeirws) 2020**

Memorandwm Esboniadol

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth yn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

22 Mai 2020

1. Disgrifiad

1.1 O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, bydd ("yr offeryn") yn lleihau'r cyfraddau archwilio a rheoli isaf ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol ("BPS") 2020 yn unol â Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2020/532 sy'n rhanddirymu, mewn perthynas â'r flwyddyn 2020, Reoliadau Gweithredu (EU) Rhif 809/2014, (EU) Rhif 180/2014, (EU) Rhif 181/2014, (EU) 2017/892, (EU) 2016/1150, (EU) 2018/274, (EU) 2017/39, (EU) 2015/1368 a (EU) 2016/1240 o ran gwiriadau gweinyddol a gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n gymwys o fewn y polisi amaethyddol cyffredin.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig bod y gofynion cyffredol yng Nghyfraith yr UE ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) ar gyfer blwyddyn gynllun 2020 yn cael eu rhanddirymu.

2.2 Cyhoeddodd yr UE Reoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2020/532 a oedd yn rhanddirymu, mewn perthynas â'r flwyddyn 2020, Reoliadau Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 809/2014, (EU) Rhif 180/2014, (EU) Rhif 181/2014, (EU) 2017/892, (EU) 2016/1150, (EU) 2018/274, (EU) 2017/39, (EU) 2015/1368 ac (EU) 2016/1240 ynghylch gwiriadau gweinyddol penodol a gwiriadau yn y fan a'r lle penodol sy'n gymwys o fewn y polisi amaethyddol cyffredin ("Rheoliadau'r UE") ar 16 Ebrill 2020.

2.3 Roedd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) (c.2) ('Deddf 2020') yn ymgorffori Deddfwriaeth yr UE ynglŷn â Thaliadau Uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig, gan ganiatáu i weinyddiaethau'r DU barhau i weithredu'r BPS ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae cynlluniau'r RhDG ar gyfer 2020, megis Glastir, yn parhau i weithredu o dan deddfwriaeth yr UE yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael ac maent yn cael eu hariannu ar y cyd â'r UE.

2.4 O'r ugain o Erthyglau yn Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2020/532, dim ond chwech ohonynt sy'n berthnasol i BPS yng Nghymru ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae pedwar o'r rhain yn golygu bod gofyn gwneud diwygiadau deddfwriaethol i Reoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sydd, yn unol â Deddf 2020, bellach yn rhan o gyfraith ddomestig.

2.5 Mae unrhyw rannirymadau y darperir ar eu cyfer ac sy'n uniongyrchol gymwys i gynlluniau o dan yr RDP ar gyfer 2020, yn uniongyrchol gymwys eisoes oherwydd eu bod yn rhan o gyfraith yr UE, ac nid oes angen diwygio deddfwriaeth ddomestig.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae'r newidiadau er mwyn gostwng y cyfraddau archwilio a rheoli isaf yn cael eu gwneud yn unol ag Erthygl 62(2)(a) a (b) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 352/78, (EC) Rhif 165/94, (EC) Rhif 2799/98, (EC) Rhif 814/2000, (EC) Rhif 1290/2005 a (EC) Rhif 485/2008 (Cyfnodolyn Swyddogol Rhif L 347, 20.12.2013, p. 549).
- 3.2 I'r graddau y mae'n ymwneud â'r BPS (Colofn 1) 2020, mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi cael ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn unol ag adran 1 o Ddeddf 2020.
- 3.3 Mae Erthygl 62(2) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi cael ei diwygio gan Reoliad 7(4) o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Yn benodol, mae'r swyddogaeth yn Erthygl 62(2) wedi cael ei diwygio fel ei bod yn arferadwy gan yr awdurdod priodol. Diffinnir "appropriate authority" yn Erthygl 2(1)(m) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 fel "*relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply*". Caiff "relevant authority" ei ddiffinio wedyn yn Erthygl 2(1)(k) fel Gweinidogion Cymru ar gyfer Cymru.
- 3.4 Mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol yn unol ag Erthygl 115B(1) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 (oherwydd ei fod yn rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf 2020).

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Rheoliad 2 yn addasu Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 ("Rheoliad 809/2014") sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013, sy'n ymdrin â'r system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn gynllun 2020.
- 4.2 Mae Rheoliad 809/2014 yn gosod rheolau ar gyfer amseru gwiriadau yn y fan a'r lle, ar gyfer cyfraddau rheoli gwiriadau yn y fan a'r lle penodol o fewn y system integredig, gan gynnwys ar gyfer cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd, a chynyddu neu ostwng y cyfraddau rheoli. Yn ogystal, mae Rheoliad 809/2014 yn cynnwys rheolau ar wiriadau yn y fan a'r lle sy'n ymwneud â meini prawf cymhwystra, ac ymrwymadau.
- 4.3 Mae nifer o rwymedigaethau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 a Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn dibynnu ar amserlenni penodol a gwahanol ar gyfer eu cyflawni, ac o ganlyniad maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwiriadau yn y fan a'r lle gael eu cynnal o fewn yr amserlenni hynny. Mae'r mesurau sydd ar waith i ymdrin â phandemig COVID-19 yn

effeithio ar ddichonoldeb cyflawni'r gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n ofynnol yn gywir ac o fewn y terfynau amser cyfatebol.

- 4.4 Mae rheoliad 2 yn darparu ar gyfer rhanddirymu'r gofynion hynny ac yn gostwng cyfradd isaf y gwiriadau yn y fan a'r lle o gymharu â'r cyfraddau rheoli arferol ar gyfer rhwymedigaethau Gwyrddu, trawsgydymffurfio, Cynllun y Taliad Sylfaenol, aiddosbarthu a ffermwyr ifanc.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid ymgynghorwyd yn ffurfiol am yr offeryn hwn oherwydd bod angen ei gyflwyno'n gyflym mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.
You refer to our terms of reference for our inquiry. These have of course been unanimously agreed by the Committee. You will also appreciate that the way a committee carries out its work - securing and exploring evidence, scrutinising legislation and government and making recommendations to the Welsh Government and the Senedd - is wholly a matter for the Committee. This, as I know you will agree, is essential to ensure the proper division of powers between the Executive and Senedd.

In terms of the future steps for the inquiry, I see our work proceeding in a way that enables us to form an overview of the recommendations of the Commission on Justice in Wales, before then focusing on some key areas where we can, in the short term, influence change.



You will know that many of the Justice Commission recommendations relate to matters which are not yet devolved. However, there is a substantial part of our justice system which is devolved and has never been subject to scrutiny. This is particularly, but not solely, in the field of administrative law. Access to justice is one important field where devolved competence is engaged and where the Welsh Government has committed resources, yet scrutiny has been limited. I am aware that there are reasons for this, particularly due to the way in which powers and resources have accrued. However, there is now an opportunity to put in place a clearly defined scrutiny process and this is where the Committee's work will be important.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales
 0300 200 6565

I very much welcome your comments about the Welsh Government's response to the Justice Commission recommendations, and in particular the establishment of a Cabinet sub-committee. We will want to ensure there is effective scrutiny of this sub-committee and its work. We will also wish to scrutinise the operation of the Welsh Government's Welsh Tribunals Unit and the Welsh Tribunals system, as well as the President of Welsh Tribunals. I note, incidentally, that there has been no scrutiny of this role so far, or any debate in the Senedd of the President's annual report, which was laid on the 9 April 2019.

Matters relating to justice evidently link to broader constitutional issues, many of which have been discussed for some years but which have become more prominent, not least because of Brexit and now the coronavirus pandemic. The Sewel convention is of course another important area. The dialectical relationship between all of these is why, in the next few months, our work is likely to become quite focused.

We will explore some of these constitutional issues with you at our meeting next week, particularly in light of the approach taken by the four nations of the UK to the Covid-19 public health emergency.

We look forward to developing a constructive approach to the scrutiny of justice matters and in time, seeing improvements in the justice system for the benefit of all citizens in Wales.

Yours sincerely,



Mick Antoniw MS
Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.





Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Mehefin 2020

Annwyl Elin

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn i'r Pwyllgor Busnes gychwyn ar y gwaith o weithredu'r darpariaethau yn Deddf y Senedd ac Etholiadau 2020 ("y Ddeddf") sy'n ymwneud â chyllid ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.

Sylweddolaf y bydd y gwaith hwn, o reidrwydd, yn llai o flaenoriaeth nag ymateb i bandemig y coronafeirws, ac yn wir y gallai'r pandemig amharu ar ein gallu i gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig ein bod yn anelu at weithredu'r darpariaethau fel y'u cynlluniwyd fel bod y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Senedd am ei weithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig ym mlwyddyn ein hetholiad, 2021.

Y cefndir

Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i ddarparu bod y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu gan y Senedd ac yn atebol iddi o ran ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru ("Etholiadau Cymru").

Mae'r Ddeddf yn darparu bod gwariant y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau datganoledig Cymru yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd yn well gan y Senedd y dull hwn, a argymhellwyd gennych, na'r dull a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru y dylai'r Bil ddarparu'n benodol ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol drwy Gomisiwn y Senedd.

Ym mis Mawrth 2019, amcangyfrifodd y Comisiwn Etholiadol y byddai cost yr etholiadau datganoledig a gâi eu hariannu gan y Senedd yn debygol o fod rhwng £0.7m ar gyfer blwyddyn heb etholiad ac £1.6m mewn blwyddyn etholiad (neu £5.3m dros gyfnod nodweddiadol o bum mlynedd).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 174
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y broses a nodir gan y Ddeddf yw:

- erbyn diwedd mis Medi bob blwyddyn, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno i Bwyllgor y Llywydd amcangyfrif cyllidebol o'r incwm y mae'n disgwyl ei gael a'r hyn y mae'n disgwyl ei wario am y flwyddyn ariannol nesaf o ran ei waith ar etholiadau Cymru. Mae Pwyllgor y Llywydd yn bwyllgor newydd y mae'n ofynnol i'r Senedd ei sefydlu ac y mae'n rhaid iddo gael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd;
- Mae Pwyllgor y Llywydd yn archwilio'r amcangyfrif cyllidebol o ran bod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei farn ef, gan ystyried adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a barn Gweinidogion Cymru;
- Yna, mae Pwyllgor y Llywydd yn gosod amcangyfrif cyllidebol gerbron y Senedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu bod Pwyllgor y Llywydd:

- yn gorfod craffu'n rheolaidd, gan ddilyn yr un broses, ar gynllun gwaith pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol sy'n nodi nodau ac amcanion y Comisiwn Etholiadol o ran arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau Cymru;
- yn gorfod gosod y cynllun y craffwyd arno gydag addasiadau neu hebddynt gerbron y Senedd;
- yn cael gofyn am archwiliad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru o unrhyw gyfrifon sy'n cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- yn gorfod gosod adroddiad blynyddol ar ei waith gerbron y Senedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu:

- y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cael llunio codau ymarfer, cynnal adolygiadau o faterion etholiadol datganoledig a gosod safonau perfformiad (gyda gofynion ynghylch sut y cânt eu datblygu);
- bod rhaid i'r Comisiwn osod adroddiad blynyddol ar ei waith gerbron y Senedd.

Pe bai Pwyllgor y Llywydd yn cytuno ar daliad mwy i'r Comisiwn Etholiadol na swm y cyllid a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru (o dan gytundeb ariannu gyda Thrysorlys ei Mawrhydi a rhanddeiliaid eraill), byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddod o hyd i'r diffyg o gyllidebau eraill. Caiff y risg hon ei lliniaru i ryw raddau gan y gofyniad i Bwyllgor y Llywydd ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth archwilio amcangyfrif cyllideb y Comisiwn Etholiadol a thrwy wiriadau a gwrthbwsau eraill ym mhroses gyllidebol y Senedd.

Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gychwyn y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol drwy orchymyn. Fel y dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn glir yn ystod y trafodaethau ar y Bil, byddwn yn cychwyn y darpariaethau yn amodol ar gael ein bodloni ynglŷn â chadernid y gyfundrefn atebolrwydd ac archwilio.

Hyd nes y cychwynir y darpariaethau, bydd y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol y DU, a chaiff ei gyllideb a'i gynlluniau gwaith eu cymeradwyo a'u harchwilio gan Bwyllgor y Llefarydd mewn perthynas â'i waith ar etholiadau Cymru. Byddai gan y Senedd, wrth gwrs, berffaith hawl i graffu ar weithgareddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Cymru gan ddefnyddio'r pwerau presennol, fel sy'n wir ar hyn o bryd, hyd yn oed heb fod â chyfrifoldeb dros y cyllid.

Gweithredu

Rwyf yn disgwyl, os yw hynny'n bosibl o ystyried y sefyllfa ehangach, y dylid cychwyn y darpariaethau perthnasol mewn pryd ar gyfer y broses o graffu ar gyllideb 2021-22 gan ddechrau ym mis Medi. Fel y nodais uchod, mae hyn yn ymddangos yn briodol o gofio mai etholiad y Senedd 2021 fydd y cyntaf i'w gynnal ers datganoli cyfrifoldebau etholiadol.

Mae'r gyfraith o ran tynnu taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru yn cael ei nodi yn adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn benodol, mae is-adran 129(4) yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod arian ar gael i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth.

Felly o dan y gyfraith fel y mae, rhaid i un o'r cyrff a restrir uchod fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o arian y mae'n eu gael o Gronfa Gyfunol Cymru. Yr unig ddau gorff priodol i ymgymryd â'r rôl weinyddol hon yw Gweinidogion Cymru neu Gomisiwn y Senedd. Mae Comisiwn y Senedd wedi nodi nad yw hyn yn ateb priodol yn ei farn ef. Y pryder yw na fyddai'n bosibl i'r taliadau gael eu gwneud ar sail weinyddol yn unig heb i'r taliad gael ei ymgorffori yng nghyllideb flynyddol Comisiwn y Senedd, sy'n codi materion yn ymwneud ag amseru ac atebolrwydd.

Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthwynebu cyflawni'r rôl hon o ystyried yr egwyddor gyfansoddiadol bwysig fod Comisiwn Etholiadol yn annibynnol ar gangen weithredol y Llywodraeth. Fodd bynnag, rydym yn barod i wneud hynny dros dro, ar sail weinyddol yn unig, er mwyn galluogi i'r darpariaethau ddod i rym yn gyflym, gan dybio bod hyn yn dderbyniol gan y Comisiwn Etholiadol a'r Senedd. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cydnabod pwysigrwydd ei annibyniaeth oddi wrth y Llywodraeth, ond mae'n fodlon bwrw ymlaen yn y modd hwn, fel trefniant dros dro, ar yr amod y cytunir ar protocol ysgrifenedig sy'n adlewyrchu'r trefniadau hyn.

Rydym yn bwriadu parhau i ystyried opsiwn arall a fyddai'n golygu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru er mwyn ychwanegu'r Comisiwn Etholiadol at y rhestr o gyrff taledig yn adran 129(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru fel bod arian o Gronfa Gyfunol Cymru, unwaith y caiff ei gymeradwyo, yn gallu cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Comisiwn Etholiadol. Byddai gwneud hynny yn cynnwys y gofynion a nodir yn adran 130A o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n pennu bod yn rhaid i deddfwriaeth Cymru ddarparu bod y Comisiwn Etholiadol yn paratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer yr arian y mae'n ei dderbyn o Gronfa Gyfunol Cymru a bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny a chyflawni swyddogaethau atebolrwydd eraill mewn perthynas â'r cronfeydd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu cael o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae cymhlethdod hyn ac ystod y rhanddeiliaid dan sylw yn golygu na ellid ei gyflawni tan y broses gyllidebol ar gyfer 2023-24 o leiaf.

Y camau nesaf

Mantais y datrysiad dros dro yr wyf wedi'i ddisgrifio uchod yw y byddai'n dibynnu ar y gyfundrefn atebolrwydd ac archwilio bresennol sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai cychwyn y darpariaethau hefyd yn amodol ar gwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog, sefydlu Pwyllgor y Llywydd, a negodi cytundeb ariannu rhyng-sefydliadol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gychwyn y broses o ddiwygio'r Rheolau Sefydlog a sefydlu Pwyllgor y Llywydd. Mae swyddogion y Comisiwn Etholiadol yn bwrw ymlaen â gwaith ar y cytundeb ariannu. Mae fy swyddogion yn barod i gynorthwyo ac i gysylltu â chi ynghylch amseriad y Gorchymyn cychwyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau Cyllid a Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac at Bennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad


9 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Gohebiaeth at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn

Atodaf gopi o lythyr yr ydym wedi'i anfon at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn, sy'n galw am ragor o ymgysylltu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn ystod cymalau olaf y trafodaethau ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Yn gywir,



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddMADY@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddEAAL@senedd.wales

 0300 200 6565

The Rt Hon. Michael Gove MP
Chancellor of the Duchy of Lancaster and Minister for the Cabinet Office
Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS
United Kingdom

9 June 2020

Dear Michael,

UK-EU future relationship: role of the Welsh Government

We have been considering the Welsh Government's role in the UK-EU future relationship negotiations, and the wider implications that the possible outcomes from these negotiations could have for Wales.

This is both in terms of the more immediate need to prepare for the end of the transition period and the longer term implications any agreement might have for Wales and the devolution settlement.

We have previously expressed our view that achieving even a limited trade agreement with the European Union would be preferable to leaving the transition period without a trade agreement.

For any agreement to reflect the interests of the UK as a whole, and to ensure the effective implementation of any agreement in devolved areas, the devolved governments must be meaningfully engaged in the negotiations through robust and structured intra-UK intergovernmental relations.

We believe that such an approach is not only in the best interests of Wales, but also in the best interests of all the nations of the United Kingdom. This is both in terms of ensuring any agreement that is reached reflects the economies and societies of all nations of the UK and that the Welsh Government is as prepared as possible for implementing any eventual agreement in the areas for which it is responsible.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddMADY@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddEAL@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

The role afforded to the Welsh Government has implications for the Welsh Parliament's ability to play its part in representing the interests of the people of Wales, holding the Welsh Government to account, and preparing for any legislative action that might be required to implement any eventual agreement. We raised this in our December 2019 report [UK international agreements after Brexit: a role for the Assembly \[Welsh Parliament\]](#).

The previous UK Government made commitments to the Welsh Government that it would have a more meaningful and structured role in the negotiation of the UK-EU future relationship (than it had in relation to the negotiation of the Withdrawal Agreement). We note that you have previously committed to *“working with the devolved administrations to deliver a future relationship with the EU that works for the whole of the UK”*.

On 27 May 2020, Jeremy Miles MS, Counsel General and Minister for European Transition wrote to us in relation to the role that the Welsh Government has in relation to the UK-EU future relationship negotiations, implementation of the Withdrawal Agreement, and preparation of the end of the transition period.

The Counsel General and Minister for European Transition described the level of intergovernmental engagement in the following terms:

“[...] UK Government engagement with the Devolved Governments on the negotiations remains deficient: despite the promises of improved engagement as the future relationship negotiations got underway, Ministerial engagement has become even more inadequate.

The UK Government has failed despite their formal commitment in the terms of reference of the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) to seek agreement with the Devolved Governments on the negotiations to provide us with meaningful opportunities to influence.

“[...] we simply do not have the enhanced role in the second phase of negotiations (on the future relationship) that we had expected and had been promised.”

The Counsel General and Minister for European Transition appeared before us on 2 June 2020. At this meeting, in response to questioning, he further elaborated on his view of the state of intergovernmental relations (as they relate to matters associated with EU transition and the future relationship). He described the UK Government's limited interaction with the Welsh Government as *“[...] courteous and respectful, but, essentially, the UK Government is fundamentally uninterested”*.



In relation to the UK's draft legal texts, the Welsh Government was only provided with these texts 24-hours in advance of their wider publication. The Counsel General and Minister for European Transition described this as "*wholly unacceptable*". This level of engagement between governments falls short of what we would reasonably expect.

In light of the limited and unstructured engagement that there appears to have been between the UK and Welsh Governments to date, and the Counsel General and Brexit Minister's stark description of this engagement, we are concerned that Welsh priorities, and the future implications for the devolution settlement that might arise from any eventual agreement, are not being considered by those conducting the negotiations.

We believe that the UK Government commitments made previously, to provide a more substantial and structured role for the devolved governments in the future relationship negotiations, should be honoured.

Whilst valuable time has been lost, and it is disappointing that the role of the devolved governments has not been resolved sooner, it is not too late to step-up the level of engagement and to implement a more structured approach to engaging with the Welsh Government.

If previous commitments are not to be honoured, we believe that the reasons for not honouring them should be made plain.

Across the four nations of the UK, we face monumental challenges as we begin our tentative recovery from the COVID-19 pandemic, and the success of the future relationship negotiations will affect our ability to address those challenges.


We wish to see agreement reached on the UK-EU future relationship, but believe that the level of engagement with the Welsh Government must be intensified and better structured if the people of Wales are to be assured that their interests, and the devolution settlement, are being adequately protected in the conduct of the negotiations and in the terms of any agreement that is finally reached.

I have copied this letter to Joan McAlpine MSP, Convener of the Culture, Tourism, Europe and External Affairs Committee, Bruce Crawford MSP, Convener of the Finance and Constitution Committee, Colin McGrath MLA, Chair of the Committee for the Executive Office, Rt. Hon. Hilary Benn MP, Chair of the Committee on the Future Relationship with the EU, The Earl of Kinnoull, Chair of the European Union Committee, Jeremy Miles MS, Counsel General and Minister for European Transition, Rt. Hon Penny Mordaunt MP, Paymaster General.

I look forward to your response to this letter and the invitation to join our virtual meeting on 30 June 2020.



Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is set against a light yellow rectangular background.

David Rees MS

Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Mick Antoniw AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Mick.Antoniw@assembly.wales

09 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Rheoliadau Offeryn Statudol Ledled y DU – Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygiad) 2020

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi llunio yr Offeryn Statudol (OS) o dan y pwerau a amlinellir yn Neddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys deddfwriaeth yr UE sy'n rheoli cynlluniau Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol 2020 mewn deddf ddomestig ar Ddiwrnod Ymadael. Mae hyn oherwydd bod y Cytundeb Ymadael wedi datgymhwysu Rheoliad Taliadau Uniongyrchol y DU ar gyfer blwyddyn 2020 o Ddyddiad Ymadael.

Gwnaeth dau OS, a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2020, ddiwygiadau i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol, i'w gwneud yn weithredol yn y DU. Y rhain oedd Rheoliadau Cyllido, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol (Diwygio) 2020 (OS. 2020/90) a Rheoliadau y Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (OS. 2020/91).

Mae'r OS hwn yn gwneud rhagor o ddiwygiadau gweithredu sy'n gysylltiedig â materion sy'n codi o ymadawiad y DU â'r UE na ymdriniwyd yn llawn â hwy ar y pryd. Mae hefyd yn manylu ar y fethodoleg ar gyfer pennu y gyfradd gyfnewid Ewro i Sterling sydd i'w defnyddio i gyfrifo Taliadau Uniongyrchol 2020 i ffermwyr.

Caiff yr offeryn hwn ei wneud yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

Mae'r OS hwn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n pennu effaith y diwygiadau ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/576/contents/made>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud y diwygiadau hyn mewn cysylltiad â, ac ar ran Cymru, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau hyn. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw newid polisi. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Mick Antoniw AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Mick.Antoniw@assembly.wales

10 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Offeryn Statudol Led-led y DU – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol (Terfynnau Uchaf) 2020

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi gwneud yr offeryn statudol uchod o dan bwerau a amlinellir yn Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 17 Rhagfyr 2013 gan sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (sy'n cael eu cynnwys mewn deddf ddomestig drwy adran 1 y Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) hwn yn weithdrefn gadarnhaol sy'n diwygio terfyn uchaf cenedlaethol a therfyn uchaf net y DU ar gyfer blwyddyn 2020 yn unig. Defnyddir y terfynau ariannol hyn i gyfrifo taliadau i ffermwyr o dan y cynlluniau Taliadau Uniongyrchol.

Mae'r OS hwn yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i barhau i sicrhau bod Cynllun Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredinol ("PAC") yn parhau i fod yn weithredol ar gyfer blwyddyn cynllun 2020, unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effeithiau y diwygiadau ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2020/9780111196779>

O ran unrhyw effaith a gaiff yr OS ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac/neu gymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru, rwy'n cadarnhau bod y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC") a'i weithrediad yng Nghymru yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y gyfraith ei diwygio fel a ganlyn:

Rheoliad (UE) Rhif. 1307/2013 – sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (“y Rheoliad”) fel y mae’n rhan o gyfraith ddomestig o ganlyniad i Ddeddf Parhad Deddfwriaethol Taliadau Uniongyrchol.

Mae’r OS yn addasu terfynau uchaf cenedlaethol a net 2020 ar gyfer y DU yn Atodiadau 2 a 3 y Rheoliad gan ystyried Erthyglau 7A ac 14.

Mae Erthygl 7A yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu cynyddu y terfynau uchaf cenedlaethol a net ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 gan ystyried argymhellion Adolygiad Bew.

Cafodd Adolygiad Bew, ynghylch dyrannu cyllid cymorth i ffermydd, ei gyhoeddi ym mis Medi 2019. Mae’r OS yn diwygio’r terfyn uchaf cenedlaethol a net i adlewyrchu canfyddiadau Adolygiad Bew. Yn unol ag argymhellion Adolygiad Bew, cytunodd Llywodraeth y Du y byddai ffermwyr yr Alban yn derbyn €60.42 miliwn yn ychwanegol a ffermwyr Cymru €6.12 miliwn yn ychwanegol dros gyfnod o ddwy flynedd, 2020-22. Mae’r terfyn uchaf ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn Atodiadau 2 a 3 wedi eu haddasu i ystyried y cynnydd hwn.

Mae Erthygl 14 yn galluogi’r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod hyd at 15% ar gael o’u cyfran hwy o’r terfyn uchaf cenedlaethol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 fel cymorth ychwanegol ar gyfer mesurau o dan ddatblygu gwledig. Penderfynodd Llywodraeth Cymru drosglwyddo 15% o’r cronfeydd fel bod modd sicrhau bod rhain ar gael at fesurau datblygu gwledig. Dyma’r un dull ag a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd hawlio blaenorol, ac mae’n helpu i gadw’r sefyllfa fel y mae. Mae’r terfynau uchaf ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn Atodiadau 2 a 3 wedi eu haddasu i ystyried y gostyngiad dilynol i’r terfynau uchaf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth Cymru wneud y cywiriadau hyn yn gysylltiedig, ac ar ran, Cymu er mwyn effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae y diwygiadau wedi eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wyro o’r polisi. Mae’r newidiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu wedi i’r DU ymadael â’r UE.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

DATGANIAD GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Deddfwriaeth yn ymwneud ag ymadael â'r UE
DYDDIAD 25 Chwefror 2020
GAN Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

Roeddwn yn meddwl y byddai'n fuddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y datblygiadau diweddar a'r rhagolygon o ran deddfwriaeth sy'n codi yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

I ddechrau, byddaf yn ystyried Deddf y Cytundeb Ymadael a'r goblygiadau ar gyfer confensiwn Sewel.

Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Senedd hon, ar 21 Ionawr, wedi dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru a gwrthod cydsyniad ar gyfer y ddeddfwriaeth honno.

Mae wedi'i ddweud sawl gwaith yn y Senedd mai rhesymau cyfansoddiadol yn bennaf oedd y tu ôl i hyn – o ran bygythiad y ddeddfwriaeth hon i gymhwysedd Senedd Cymru a gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y negodiadau sydd ar ddod a fydd yn cael effaith ddifrifol ar feysydd polisi datganoledig. Fe wnaethon ni bopeth posibl i wella'r Bil – a hynny cyn iddo gael ei gyflwyno ac yna gan weithio'n agos gydag Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi i gynnig gwelliannau a fyddai wedi'i wneud yn dderbyniol o safbwynt datganoli. Ond, yn y diwedd, nid oedd modd darbwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd ein penderfyniad yma yn y Senedd yn adlewyrchu pleidleisiau tebyg yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban – y tro cyntaf i bob un o'r tair deddfwrfa wrthod cydsyniad ar gyfer yr un ddeddfwriaeth gan Senedd y Deyrnas Unedig. Er gwaethaf hyn, gwthiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Bil drwodd i gael Cydsyniad Brenhinol wrth i Senedd San Steffan ddiystyru barn y tair deddfwrfa.

Gallai hyn fod wedi troi'n argyfwng cyfansoddiadol difrifol, gan fygwth seiliau datganoli. Fodd bynnag, mewn gohebiaeth, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fod yr amgylchiadau yn rhai "hynod, penodol ac eithriadol" a dywedodd Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn eu bod yn "unigryw". Cafwyd sylwadau tebyg gan yr Arglwydd Callanan, Gweinidog Gwladol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn y trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ac mewn datganiad ysgrifenedig gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn.

Ysgrifennais wedyn at Stephen Barclay a Michael Gove i gydnabod yr arwyddion calonogol hyn bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod difrifoldeb y cam hwn a'i bod yn dehongli egwyddor 'ddim fel arfer' Sewel i olygu 'dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol'. Ar y sail hon, fe wnes i eu hatgoffa ein bod ni, yn 'Diwygio ein Hundeb', wedi galw am godeiddio'r confensiwn drwy nodi'r amgylchiadau a'r meini prawf pan allai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn sefyllfa gyfyng, fwrw ymlaen â'i deddfwriaeth, er gwaethaf diffyg cydsyniad gan y deddfwrfeydd datganoledig. Fe alwon ni hefyd ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drafod hyn ymhellach â ni.

Felly, er bod penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fwrw ymlaen â Bil y Cytundeb Ymadael heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig yn peri cryn bryder, mae'n ymddangos eu bod yn credu, fel ninnau, y dylid ystyried yr achos hwn yn un eithriadol. Mae angen inni fynd ati nawr i adeiladu ar hynny.

Gan symud ymlaen, bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod bron y cwbl o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn dal i fod yn gymwys yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod pontio. Ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried a oes angen pwerau i gadw gyda datblygiadau yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd y tu hwnt i'r cyfnod pontio – ac a fyddai pwerau o'r fath yn ymarferol. Nid ydym ar hyn o bryd yn gweld angen brys i gyflwyno Bil yn y Senedd sy'n cynnwys pwerau i gadw gyda deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mae sawl rheswm dros hyn.

Y prif reswm, o bosibl, yw bod gennym bryderon o ran a fyddai'n dderbyniol i'r Senedd hon pe bai Gweinidogion Cymru yn cael pwerau eang i gadw gyda deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd o fewn cymhwysedd datganoledig drwy Fil hollgynhwysfawr. Ni fyddai hynny'n gyson â'r safbwyntiau y mae'r Aelodau wedi'u mynegi yn y gorffennol, felly byddai'r bar ar gyfer cynnig gweithred o'r fath yn cael ei osod yn uchel.

Mae yna hefyd ffyrdd eraill o alluogi Cymru i gadw gyda datblygiadau pan fyddwn yn gweld yr angen.

Yn gyntaf, mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau i gadw gydag addasiadau technegol i deddfwriaeth drydyddol yr Undeb Ewropeaidd drwy swyddogaethau a gafodd eu creu gan yr Offerynnau Statudol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o'r rhaglen gywiriadau, neu drwy bwerau domestig sydd eisoes yn bodoli. Bydd angen mynd ati i ddadansoddi pa bwerau sydd eisoes ar gael mewn ymateb i gynigion deddfwriaethol penodol yn yr Undeb Ewropeaidd wrth iddynt gael eu datblygu.

Ar gyfer deddfwriaeth fwy sylweddol yn yr Undeb Ewropeaidd, byddai eu proses deddfwriaethol nhw yn darparu mwy na digon o amser i alluogi Senedd Cymru i gyflwyno a phasio Bil pe bai angen.

Mae cyd-destun hyn oll yn bwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod wedi'i hymrwymo i broses y Fframweithiau Cyffredin. Rydyn ni'n credu y dylai'r broses hon alluogi a rheoli gwahaniaethau mewn polisi rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau Datganoledig, neu yn wir rhwng y Llywodraethau Datganoledig eu

hunain. Rydyn ni'n bwriadu dilyn proses y fframweithiau cyffredin hyd at ei diwedd cyn penderfynu ble y gall fod angen inni ddilyn datblygiadau yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Serch hynny, hoffwn sicrhau'r Aelodau y byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

Yn olaf, dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y bydd angen corff sylweddol o is-ddeddfwriaeth eleni. Ni allwn ddweud faint fydd ei angen cyn gwybod beth fydd hynt y negodiadau â'r Undeb Ewropeaidd, ac yn wir â thrydydd gwledydd eraill. Beth bynnag, bydd galw yn codi o'r gwaith arferol i weithredu cyfraith yr UE sy'n dod i rym eleni; yr Offerynnau Statudol cywiro pellach sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn 'gweithio' yng nghyd-destun diwedd y cyfnod pontio; a'r is-ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r systemau newydd sy'n cael eu sefydlu gan Filiau'r Deyrnas Unedig a Deddf y Cytundeb Ymadael ei hun.

Mae'r gwaith wedi hen ddechrau i benderfynu faint o ddeddfwriaeth fydd yn angenrheidiol – gymaint ag y gallwn ei benderfynu ar hyn o bryd – a byddaf, wrth gwrs, yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Cadarnhewch yr hyn a draddodwyd

O dan embargo hyd nes y mae Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, wedi traddodi'r datganiad.



Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

11 Mehefin 2020

Annwyl Mick

Yn fy llythyr dyddiedig 12 Chwefror yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth lafar ar 13 Ionawr mewn perthynas ag ymchwiliad 'Y Newid yng Nghyfansoddiad Cymru', dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ôl cael cyfle i ystyried ymhellach pa mor briodol y byddai i'r Senedd gael mwy o swyddogaeth o ran craffu ar gytundebau rhynglywodraethol a materion cysylltiedig. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi a fu cyn gwneud hyn, ond rwy'n siŵr y byddwch yn deall y rhesymau pam.

Fy mhwynt cyntaf yw bod ystod eang o gytundebau rhynglywodraethol, yn amrywio er enghraifft, o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cytundebau Atodol cyffredinol sy'n rhoi'r strwythur sylfaenol ar gyfer gwaith rhynglywodraethol, i drefniadau llawer mwy penodol megis y rhai a wneir o dan o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Byddwn bob amser yn parchu'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn tynnu sylw'r Senedd yn benodol at y rhai yr ystyriwn eu bod o ddiddordeb arwyddocaol, ac yn hysbysu eraill yn briodol ac ar gyfer y cofnod.

Yn y llythyr hwn, fodd bynnag, hoffwn ymdrin â'r ddau fath o gytundeb rhynglywodraethol y deallaf eu bod o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor ar hyn o bryd: Fframweithiau Cyffredin a chytundebau sy'n ymhelaethu ar ddarpariaethau yn Neddfau'r DU neu sy'n gysylltiedig â hwy.

Fframweithiau Cyffredin

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymroddedig i'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin, ac mae'n parhau felly. Sefydlwyd y rhaglen hon yng ngoleuni'r Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin wedi cael ei harafu'n anochel gan argyfwng Covid-19, a bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am hyn yn fuan.

Mae'r rhaglen fframweithiau cyffredin yn ymdrech ar y cyd gan bedair lywodraeth y DU ac mae'r pedair yn ymrwymedig i dryloywder a chraffu gan y pedair deddfwrfa. Ni fydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fframweithiau yn hollol derfynol nes y bydd y Senedd a deddfwrfeydd eraill y DU wedi cael cyfle i'w hystyried a rhoi sylwadau arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn ymdrin yn ddifrifol â'r sylwadau a wnaed gan y Senedd mewn perthynas â manylion penodol a chyffredinol y Fframweithiau, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn drwy Fwrdd Rhaglen y Fframweithiau Cyffredin. Fodd bynnag, mae'r Fframweithiau Cyffredin yn destun negodiadau rhynglywodraethol ac nid gan Lywodraeth Cymru y mae'r gair olaf, o bell ffordd, ar eu ffurf a'u cynnwys. Bydd unrhyw ddeunydd a rennir â'r Senedd wedi bod drwy broses drwyadl o drafod amlochrog a gallai fod yn anodd ailedrych ar y sefyllfa os oes cefndir o gyfaddawd anodd rhwng safbwyntiau a buddiannau gweinyddiaethau gwahanol.

Felly, er y bydd modd i'r Senedd a'r deddfwrfeydd gynnig diwygiadau neu newidiadau i'r fframweithiau, gallai fod yn anodd i ddiwygiadau a argymhellir gan un ddeddfwrfa yn unig gael eu derbyn. Ymddengys yn briodol, felly, bod y deddfwrfeydd yn cydweithio wrth graffu ar Fframweithiau drafft, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Gallaf eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud beth bynnag a all i hwyluso cydweithio o'r fath. Byddai gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod mwy ynghylch a yw trafodaethau rhyngseneddol yn mynd rhagddynt, a sut mae hynny'n digwydd.

Cytundebau ynglŷn â darpariaethau yn Neddfau'r DU

Fel yr adroddwyd gan y Pwyllgor, yn ogystal â'r Cytundeb Rhynglywodraethol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), mae Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r hyn a ddaeth yn Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 a'r Bil Amaethyddiaeth. Mae'r cytundebau rhynglywodraethol hyn yn gorfodi cyfyngiadau gwleidyddol, lle nad yw cyfyngiadau statudol yn bosibl, ar gamau gweithredu un llywodraeth mewn perthynas â chyfrifoldebau un arall. Rydym hefyd yn datblygu cytundeb ar y Bil Pysgodfeydd.

Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru beidio â throi at y math hwn o gytundeb rhynglywodraethol. Fel man cychwyn, yn ein barn ni, dylai fod darpariaeth ddigonol ar wyneb Biliau Senedd y DU i ddisgrifio sut yr arferir swyddogaethau gan lywodraethau'r DU yn unol â'r setliadau datganoli.

Fodd bynnag, lle nad yw Llywodraeth y DU yn barod i gytuno ar gynnwys darpariaethau o'r fath ar wyneb ei Biliau, mae dewis anodd yn wynebu Llywodraeth Cymru. Ar un llaw, gallem argymhell nad yw'r Senedd yn cydsynio i Fil y DU, gan arwain at risg glir y bydd Llywodraeth y DU yn gwahodd Senedd y DU i anwybyddu'r diffyg cydsyniad hwn, gan danseilio confensiwn Sewel ymhellach. Ar y llaw arall, gallem ystyried atebion nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, megis cytundeb rhynglywodraethol i alluogi argymhelliad bod y Senedd yn cydsynio i Fil. Yn yr amgylchiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol presennol, gyda Llywodraeth sydd â chryn fwyaf yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn wyneb yr heriau sylweddol sy'n codi o ran polisi a deddfwriaeth yn sgil ymadael a'r UE, mae'n debygol mai'r ail opsiwn hwn a ffeirir gennym mewn rhai achosion.

Yn anffodus, yn achos y negodiadau ynghylch y math hwn o gytundeb rhynglywodraethol, ni cheir y nodweddion defnyddiol sy'n perthyn i negodiadau am Fframweithiau Cyffredin. Wrth negodi ynghylch Bil y DU, rydym yn wynebu amserlenni cywasgedig (a ddefnyddir gan y ddwy ochr i'w mantais eu hunain) ac anghydweld o ran y safbwyntiau negodi. Nid yw'r rhain yn amodau ffafriol o gwbl ar gyfer hwyluso trefniadau craffu. Pan fo hynny'n bosibl, byddwn yn rhoi gwybod yn gynnar i'r Senedd fod angen cynnal negodiadau ar gytundeb rhynglywodraethol o'r math hwn, a beth yn union yw blaenoriaethau negodi Llywodraeth Cymru. A byddwn yn sicrhau bod y Senedd yn cael cymaint o wybodaeth ag y bo modd am

natur a chynnydd negodiadau o'r fath. Ein nod bob amser fydd cyflwyno'r cytundeb terfynol er mwyn llywio'r ddadl ynghylch a ddylid darparu cydsyniad deddfwriaethol ai peidio.

Gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at drafodaeth bellach â'ch Pwyllgor, os bydd angen. Yn y cyfamser, byddwn yn hapus i awdurdodi rhagor o sesiynau briffio technegol pe byddai hynny o gymorth.

Dymuniadau gorau

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD